

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu

## Addysg Gymraeg

### **Aelodau'r Ymchwiliad**

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)

Cynghorydd Elin Walker Jones

Cynghorydd Bethan Wyn Lawton

Cynghorydd Liz Saville Roberts (hyd at 7/5/2015)

Cynghorydd Dyfrig Siencyn (hyd at 1/9/14)

Cynghorydd Eirwyn Williams

Cynghorydd Hefin Williams

### **Swyddogion**

Debbie Anne Williams Jones (Swyddog Arweiniol)

Ann Roberts (Swyddog Cefnogol)

Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH



Cyhoeddwyd: .....

# **Yr Adroddiad**

- 1. Crynodeb Gweithredol**
- 2. Pwrpas yr Ymchwiliad**
- 3. Cefndir**
- 4. Deddfwriaeth a Strategaethau Cenedlaethol**
- 5. Polisi Iaith Addysg Gwynedd a Chynlluniau Strategol**
- 6. Cymariaethau Perfformiad Ac Adroddiadau Archwiliadau  
Allanol**
- 7. Gwaith yr Ymchwiliad**
- 8. Argymhellion**
- 9. Adrodd yn ôl**

**Cydnabyddiaeth**

# Yr Atodiadau

Atodiad 1 - Holiadur Penaethiaid Uwchradd

Atodiad 2 – Holiadur Penaethiaid Cynradd

Atodiad 3 – Holiadur Canolfannau Iaith

Atodiad 4 – Holiadur Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith

Atodiad 5 – Holiadur Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor

Atodiad 6 – Astudio Trwy Gyfrwng y Gymraeg

Atodiad 7 - Carfannau Iaith

Atodiad 8 – Gwe Iaith y Tri Dalgylch

Atodiad 9 – Niferoedd - Canolfannau Iaith Cynradd

Atodiad 10 – Niferoedd Canolfannau Iaith Cynradd 2005 - 2015

Atodiad 11 – Canolfan Iaith Cefn Coch

Atodiad 12 – Canolfan Iaith Dolgellau

Atodiad 13 – Canolfan Iaith Llangybi

Atodiad 14 – Canolfan Iaith Maesincla

Atodiad 15 – Niferoedd - Canolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 16 – Niferoedd Canolfan Iaith Uwchradd 2005 – 2015

Atodiad 17 – Crynodeb fesul Ysgol yng Nghanolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 18 – Tracio Disgyblion Canolfannau Iaith Cynradd

Atodiad 19 – Gwybodaeth Bellach - Canolfan Iaith Uwchradd

Atodiad 20 – Gwersi Cymraeg Rhieni

Atodiad 21- Crynodeb Lefelau a Charfanau Iaith

Atodiad 22 – Lefelau a Charfanau Iaith 2013

Atodiad 23 – Lefelau a Charfanau Iaith 2014

Atodiad 24 – Holiadur Llywodraethwyr

Atodiad 25 – Canlyniadau Holiadur Rhieni

Atodiad 26 – Adroddiad Tystiolaeth Grwpiau Ffocws Disgyblion

Atodiad 27 – Defnydd Iaith Gwersi Uwchradd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â  
Debbie Anne Williams Jones  
Cyngor Gwynedd  
Stryd y Jêl,  
Caernarfon,  
LL55 1SH  
Rhif ffôn: (01286) 679 267  
E-bost: [DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk](mailto:DebbieAnneWilliamsJones@gwynedd.gov.uk)  
[Tudalen Trosolwg a Chraffu Cyngor Gwynedd](#)

## **RHAGAIR Y CADEIRYDD**

“Mae’n bleser o’r mwyaf gennyf gyflwyno i’ch sylw ffrwyth llafur aelodau gweithgor fu’n ymchwilio i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi iaith Cyngor Gwynedd yn ysgolion y Sir ac i ba raddau mae’r polisi hwnnw’n hybu defnydd cymdeithasol o’r iaith gan ein plant a’n pobl ifanc.

Nid gorchwyl hawdd mohono a bu’n rhaid tyllu’n ddwfn o dan y wyneb i ganfod effaith y polisi iaith ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol. Er y bu’n rhaid cyfyngu ein hymchwil i dair ardal benodol daeth patrwm i’r amlwg y credwn sy’n adlewyrchiad o’r sefyllfa’n draws sirol.

Fel y dengys ein canfyddiadau mae dehongli’r polisi’n amrywio’n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon unigol dros y Gymraeg. Ymddengys nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o’r gofynion.

O ganlyniad mae’r gweithgor wedi cynnig ugain o argymhellion y gobeithir fydd yn cael eu mabwysiadu ar fyrder. Cydnabyddir pwysigrwydd allweddol ein hysgolion i barhad y Gymraeg oddi fewn a thu allan i’w llibart - ond nid da lle gellir gwell!

Dymunaf ddiolch o galon am gydweithrediad parod pawb fu’n rhannu o’u profiadau’n agored, proffesiynol a di-flewyn ar dafod. Roedd eu barn a’u tystiolaeth yn anhebgorol. Diolch hefyd i swyddogion y Cyngor fu’n ein cadw ar y llwybr cul a chyfannu ein trafodaethau’n adroddiad cynhwysfawr a chlr. Ac yn olaf diolch i’m cyd-aelodau ar y gweithgor fu’n rhannu’r un weledigaeth a’r un nod o weld y Gymraeg yn cryfhau fel prif iaith cymunedau Gwynedd – a thu hwnt!”

**Cynghorydd Alwyn Gruffydd  
Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu**

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn asesu

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol,
- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Y bwriad oedd llunio argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylchoedd yn awr ac i'r dyfodol.

Nid oedd modd rhoi sylw i'r holl ysgolion a dalgylchoedd. Bu i'r ymchwiliad ganolbwyntio ar dri dalgylch, sef Ardudwy, Bangor a Botwnnog. Y gobaith oedd bod y dalgylchoedd amrywiol hyn yn gyfrwng i adlewyrchu holl ddalgylchoedd Gwynedd ac y byddai argymhellion yr ymchwiliad yma'n berthnasol i bob ysgol.

Dylid cofio mai ciplun mewn amser ydi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod yr ymchwiliad craffu os na nodir yn wahanol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, a phrif ddogfennau Cyngor Gwynedd a ystyriwyd fel cefndir i'r ymchwiliad craffu ynghyd â deddfwriaeth a strategaethau cenedlaethol. Tynnir sylw at Bolisi Iaith yr Awdurdod, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2014-2017, Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Tynnir sylw hefyd at adroddiad a gomisiynwyd gan gwmni Trywydd, sef Adroddiad cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Trywydd 2014).

Yn ogystal, tynnir sylw at gymariaethau perfformiad ar draws Gymru ac adroddiadau archwiliadau a gynhaliwyd gan gyrff allanol ar berfformiad Awdurdodau Lleol. Tynnir sylw hefyd at ystadegau ynglŷn â dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'r Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnodau Allweddol 3 a 4 ac adroddiad ESTYN (Tachwedd 2014) ar 'Ddilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog'.

Bu i'r ymchwiliad craffu ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan benaethiaid yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y tri dalgylch dan sylw ynghyd a thystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar mewn cyfweiliadau. Ystyriwyd tystiolaeth ar lafar mewn cyfweiliadau â phenaethiaid yr holl Ganolfannau Iaith yng Ngwynedd a'r Cydlynwyr/Cyd-gysylltwyr Iaith. Yn ogystal ystyriwyd tystiolaeth ar lafar mewn cyfweiliad gyda darlithwyr yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

Ystyriwyd yr ymatebion i holiaduron a ddarparwyd ar gyfer rhieni disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ystyriwyd adroddiad Iaith Cyf. a gynhaliodd grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc yn sampl o ysgolion yn y dalgylchoedd dan sylw.

Ystyriwyd data o nifer o ffynonellau: yr Adran Addysg, Canolfannau Iaith, Cydlynwyr / Cydgysylltwyr Iaith ar lefelau a charfanau iaith y dalgylchoedd a derbyniwyd gwe iaith ar gyfer dalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog.

1.2 Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r dogfennau cefndir, y data a'r holl dystiolaeth a gasglwyd gwnaed yr argymhellion canlynol:

Argymhellion mesuradwy	Maes	Cyfrifoldeb	Y Mesur posib / Allbwn
<p>1. Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.</p>	Polisi	Adran Addysg	A) Polisi Iaith ddiwygiedig yn ei le.
<p>2. Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.</p>	Polisi	Adran Addysg (Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd)	<p>A) Adran Addysg wedi sicrhau diffiniad ieithyddol safonol ar gyfer pob ysgol uwchradd a'i wneud yn eglur i'r holl randdeiliaid.</p> <p>B) Llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau eu dealltwriaeth o ddiffiniad ieithyddol yr ysgolion a gofynion y Polisi Iaith.</p> <p>C) Adran Addysg yn gweithredu trefniadau monitro cadarn er sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio gyda'r</p>

			diffiniad a Pholisi laith (Addysg) y sir.
<p><b>3.</b> Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.</p>	Polisi (Gweithredu)	Adran Addysg	A) Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi laith (Addysg).
<p><b>4.</b> Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi laith.</p>	Polisi (Gweithredu)		A) Y Llywodraethwyr a'r Cyngor yn monitro canlyniadau arholiadau'n fanwl ac yn rheolaidd.
<p><b>5.</b> Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi laith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.</p>	Polisi (Gweithredu)	Ysgol Friars / Adran Addysg	<p>A) Y Cyngor yn cefnogi Ysgol Friars yn rheolaidd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.</p> <p>B) Y Cyngor wedi sicrhau dealltwriaeth y Llywodraethwyr ac wedi sefydlu trefn fonitro gadarn.</p> <p>C) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi rhaglennu eu gwaith i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd.</p>
<p><b>6.</b> Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn</p>	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Pob Llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar



<p>derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi laith.</p>			<p>ofynion y Polisi laith.</p>
<p><b>7.</b> Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter laith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth laith.</p>	<p>Hyfforddiant</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter laith ac Ymwybyddiaeth laith.</p>
<p><b>8.</b> Er cysoni gweithrediad Polisi laith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn monitro reolaidd.</p> <p>B) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi craffu data perthnasol yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad y Polisi laith (Addysg).</p>
<p><b>9.</b> Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni.</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Trefn fonitro yn ei lle ar gyfer pob athro pwnc i baratoi adroddiadau cynnydd (cynradd ac uwchradd) ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl.</p> <p>B) Wedi trafod yr adroddiadau cynnydd gyda'r disgybl a'r rhieni.</p>

<p><b>10.</b> Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.</p> <p>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: “olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy’n dilyn cyrsiau drwy’r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg”.</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Adran Addysg / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sicrhau bod trefn gadarn yn ei lle ar gyfer monitro dilyniant ieithyddol a hefyd tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm gan adrodd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.</p>
<p><b>11.</b> Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio’n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:</p> <p>i.) faint o’r Gymraeg a’r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu</p> <p>ii.) iaith ysgrifennu disgyblion mewn gwersi dwyieithog</p> <p>iii.) beth yw’r disgwyliadau o safbwynt defnyddio’r Gymraeg/Saesneg mewn sgysiau a thrafodaethau dosbarth.</p>	<p>Addysgu dwyieithog</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer Athrawon</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- addysgu dwyieithog</li> <li>- a meithrin sgiliau trawsieithu</li> </ul>
<p><b>12.</b> Sicrhau bod:</p> <p>i) y Siarter Iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd</p> <p>ii) arfer dda ar weithredu’r Siarter Iaith</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor yn monitro’n rheolaidd gweithrediad y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir, ac yn rhoi</p>

<p>a chefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion</p> <p>iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol.</p>			<p>cefnogaeth i'r ysgolion.</p> <p>B) Y Cyngor a'r ysgolion yn creu cyfleoedd.</p> <p>C) Y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion i alluogi disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r gwefannau ac adnoddau ar-lein Cymraeg.</p>
<p><b>13.</b> Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad.</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hamdden / Gwasanaeth Ieuencid / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion adroddiad Trywydd.</p>
<p><b>14.</b> Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:</p> <p>i.) y Polisi Iaith</p> <p>ii.) y Siarter Iaith</p> <p>iii.) arferion iaith yr ysgol gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>	<p>Cynnwys disgyblion</p>	<p>Ysgolion Cynradd /Uwchradd</p>	<p>A) Y disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y Polisi Iaith, y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol.</p> <p>B) Wedi sefydlu trefn i sicrhau perchnogaeth y disgyblion ar y Polisi.</p> <p>C) Wedi sefydlu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>

<p><b>15.</b>Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr.</p>	<p>Grant Myfyrwyr</p>		<p>A) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd.</p>
<p><b>16.</b>Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion.</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi cynnal adolygiad i adnabod cyfleoedd i farchnata manteision dwyieithrwydd.</p> <p>B) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i fonitro bod pob ysgol yn y sir yn marchnata'r manteision hynny ar eu gwefan, ac ymysg rhieni a disgyblion.</p>
<p><b>17.</b>Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol.</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir yn y dulliau diweddaraf poblogaidd.</p> <p>B) Yr Ysgolion wedi gosod y llwyddiannau ar wefan yr ysgol.</p>
<p><b>18.</b>Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi digymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, sgysiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n</p>	<p>Manteision dwyieithrwydd</p>		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.</p> <p>B) Yr Ysgolion wedi sefydlu trefn i gynnal sgysiau gyda darpar ddisgyblion /</p>

rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu.			rhieni. C) Y Cyngor wedi rhannu arferion da gyda'r holl ysgolion ar draws y sir.
<b>19.</b> Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd.	Trefniadau Penodi Staff	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn gadarn ar gyfer penodi staff newydd.
<b>20.</b> Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal.	Canolfannau Iaith / Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor yn monitro defnydd o'r Canolfannau Iaith a gweithrediad y pecynnau ôl-ofal yn rheolaidd.
<b>21.</b> Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan Iaith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith.	Canolfannau Iaith	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan Iaith benodol ar gyfer dalgylch Bangor.
<b>22.</b> Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion.	Canolfannau Iaith	Canolfannau Iaith / Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor a'r Canolfannau Iaith yn rhannu arfer dda gyda'r holl ysgolion yn rheolaidd.
<b>23.</b> Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgylchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi	Addysg drochi	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu darpariaeth addysg drochi yn Ysgol Ardudwy (ac eraill).

laith.			
<b>24.</b> Dylai'r Cyngor drafod gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC).	Prifysgol Bangor		A) Y Cyngor wedi trafod ac wedi dod i gytundeb gyda Phrifysgol Bangor.

- 1.3 Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.
- 1.4 Cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor laith yn dilyn y Pwyllgor Craffu

## 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1 Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu gan y [Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 13 Chwefror 2014](#) er mwyn asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol
- Y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl Ifanc (y cyswllt efo'r Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd)

(a) Yn benodol:-

1. Manylu ar weithrediad [Polisi Iaith](#) yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
2. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisiau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
3. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "[Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg](#)" ymhob ysgol.
4. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "[Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd](#)"

(b) O ran trefn y gwaith, bwriad yr Ymchwiliad oedd ceisio darlun sirol o'r modd y caiff Polisi Iaith yr Awdurdod ei weithredu fesul dalgylch drwy sefydlu dealltwriaeth o:-

- batrwm ieithyddol o fewn y dalgylch ar sail ystadegau Cyfrifiad ac ysgolion unigol
- strwythur addysgol ardal y dalgylch a chanfyddiad rhieni ac eraill o natur ieithyddol ysgol
- berthynas ysgolion â'i gilydd o safbwynt y Gymraeg
- y defnydd a wneir o'r Canolfannau Iaith
- y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y dosbarth, ar y coridor, yn y ffreutur, ac ar y buarth
- weithgareddau a gynhelir er mwyn dathlu a hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymraeg a Chymreig
- flaenoriaethau strategol ieithyddol ar gyfer yr ardal (yng nghyd-destun datblygiad Strategaeth Iaith Gwynedd)
- y cyd-destun lleol o ran gwaith ieithyddol cymunedol
- cyraeddiadau ieithyddol plant y dalgylch
- arferion da

(c) Llunio argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylch yn awr ac i'r dyfodol

2.2 Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

Cychwynnodd yr ymchwiliad drwy gynnal trafodaeth gyda'r aelodau ar ddalgylch/oedd y dylai'r ymchwiliad ganolbwyntio arno/nynt. Cydnabu'r

aelodau nad oedd modd i'r ymchwiliad roddi sylw i'r holl ysgolion a dalgylchoedd. Felly, ceisiwyd pennu dalgylchoedd amrywiol i roi sylw iddynt fel rhan o'r ymchwiliad, gyda'r gobaith eu bod yn gyfrwng i adlewyrchu holl ddalgylchoedd Gwynedd, ac felly y byddai argymhellion yr ymchwiliad yma'n berthnasol i bob ysgol.

Yn dilyn cyngor ac arweiniad gan Mr Dewi Jones, Pennaeth Addysg (ar y pryd), cytunwyd y byddai'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar 3 dalgylch, sef:

- Ardudwy
- Bangor
- Botwnnog

Cytunwyd ar raglen waith yr ymchwiliad i gyfarch y briff a sefydlwyd dealltwriaeth o'r cefndir i'r maes drwy dderbyn cyflwyniadau gan y canlynol

Dewi Jones, Pennaeth Addysg (ar y pryd)

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2013-2017

Debbie Anne Williams Jones, a fu'n gyfrifol am gomisiynu:

- [Aseiad Ardrowiad Ieithyddol Cynllun Trefniadaeth Ysgolion Gwynedd 2008](#)
- [Adroddiad Defnydd Cymdeithasol Plant Cynradd Gwynedd o'r Gymraeg \(2009\)](#)
- [Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd 2014](#)
- Cynllun 'Byw yng Nghymru', Canolfannau Iaith Gwynedd
- Adroddiad Cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Trywydd, 2014).<sup>1</sup>

Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg ar

- Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014/15.

2.3 Ymgynghorwyd gyda'r canlynol drwy holiaduron, cyfweiliadau a chyfarfodydd dalgylchol er mwyn sefydlu dealltwriaeth o'r modd y mae Polisi Iaith Addysg y sir yn cael ei weithredu:

- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Friars a Tryfan. **Atodiad 1.**
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd Nefyn, Tan y Castell, Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Cae Top, a Hiracl. **Atodiad 2.**
- Penaethiaid Cynradd Dalgylch Bangor. **Atodiad 2.**

---

<sup>1</sup> Cysylltwch â ni am gopi.



- Penaethiaid Cynradd Dalgylch Botwnnog. **Atodiad 2.**
- Penaethiaid Canolfannau Iaith Sector Cynradd ac Uwchradd. **Atodiad 3.**
- Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Cynradd. **Atodiad 4.**
- Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Uwchradd. **Atodiad 4.**
- Darlithwyr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor. **Atodiad 5.**

- 2.4 Ar gais aelodau'r Ymchwiliad Craffu gwahoddwyd y Cadeirydd ac aelodau Arfon yr ymchwiliad i gyfarfod Penaethiaid Cynradd Dalgylch Bangor. Y bwriad oedd sicrhau cyfle i gael trafodaeth efo holl ysgolion y dalgylch, oherwydd roedd teimlad fod pob ysgol yn wahanol ym Mangor yng nghyd-destun y Polisi Iaith.
- 2.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Phenaeithiaid Ysgolion Cynradd Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Tanycastell, Hiracl, Cae Top, Nefyn; Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Tryfan a Phennaeth a Dirprwy Ysgol Friars.
- 2.6 Ar gais aelodau'r Ymchwiliad Craffu derbyniwyd gwahoddiad i gyfweid penaethiaid ysgolion cynradd dalgylch Botwnnog yn un o gyfarfodydd rheolaidd y dalgylch.
- 2.7 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda gweithlu'r Canolfannau Iaith (cynradd ac uwchradd), Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd, Cyd-gysylltwyr a Chydlynwyr Iaith Uwchradd mewn tri gwahanol grŵp. Darparwyd data i aelodau'r ymchwiliad craffu am niferoedd oedd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith, lefelau a charfanau iaith disgyblion, ynghyd â'r gwaith tracio cychwynnol.
- 2.8 Ymgynghorwyd gyda rhieni disgyblion drwy holiadur ar-lein ar safle we Cyngor Gwynedd a Gwynedd Ni. Anfonwyd neges at benaeithiaid yr ysgolion gyda linc i'r holiaduron ac anfonwyd copïau caled i'r ysgolion hynny wnaeth gais amdanynt. Yn ogystal, hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar safle we'r Cyngor ac yn y wasg.
- 2.9 Comisiynwyd [Iaith Cyf](#) i gynnal grwpiau ffocws gyda phlant a phobl Ifanc gyda sampl o ysgolion yn y dalgylchoedd dan sylw
- 2.10 Bu ymgynghori gyda Llywodraethwyr ysgolion y dalgylchoedd dan sylw. Cafwyd cydweithrediad yr Adran Addysg i gylchredeg holiadur at Glercod Cyrff Llywodraethu pob un o'r ysgolion yn y 3 dalgylch dan sylw.

### 3. Cefndir

#### 3.1 Y Gymraeg yng Ngwynedd

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65.4% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg, y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, ac mae'r iaith yn rhan gwbl greiddiol o fywyd pob dydd yma. Er hyn, dengys Cyfrifiad 2011, bod amrywiaeth eang iawn yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir, gyda'r canrannau uchaf yn hanu o wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) yng Nghaernarfon. Gwelir y canrannau'n gostwng wrth fynd i gyfeiriad Bangor (36.4%), a'r ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd megis Aberdyfi (35.5%). Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 gynnydd yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 3-4 oed a 5-15 oed yng Ngwynedd, sef:

CYFRIFIAD	2001		2011		NEWID	
3-4 oed	1,997	70.9%	1,997	73.0%	0	+2.1%
5-15 oed	14,468	91.8%	13,038	92.3%	-1,430	+0.5%

Mae data Cyfrifiad 2011 Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg fesul oedran. Yn 2011 yr oedd yr wybodaeth ar gyfer dalgylchoedd yr ymchwiliad craffu fel a ganlyn:

Ardal	Nifer yn siarad Cymraeg (3 i 15 oed)	Canran o'r boblogaeth 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg
Gwynedd	15,035	89.1
Dalgylch Ardudwy	1,128	90.5
Dalgylch Bangor	1,876	73.3
Dalgylch Botwnnog	1,170	92.6

*Ffynhonnell: Tabl KS208 Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol.*

#### 3.2 Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd

Yn Rhagfyr 1996, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Amcanion sylfaenol y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg yw:

- galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol;

- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru;
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor;
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

### 3.3 [Cynllun Strategol y Cyngor 2015-2017](#)

Mae'r Gymraeg yn un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Drwy gyfrwng y Cynllun Strategol, mae'r Cyngor yn awyddus i weld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau yn gadarnle i'r iaith Gymraeg, a bod y Gymraeg yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd a lled y sir.

### 3.4 [Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017](#)

Gweledigaeth y Strategaeth hon yw: "Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd". Yn cyd-fynd â'r weledigaeth, gosodwyd targed meintiol tymor hir yn y Strategaeth Iaith flaenorol, ac ategir y targed meintiol hwn ar gyfer y Strategaeth hon, sef: "Sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021."

Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar chwe maes strategol, yn cynnwys:

- |                    |                      |
|--------------------|----------------------|
| • Maes Strategol 1 | Y Teulu              |
| • Maes Strategol 2 | Plant a Phobl Ifanc  |
| • Maes Strategol 3 | Cymunedau            |
| • Maes Strategol 4 | Gwasanaethau Cymraeg |
| • Maes Strategol 5 | Y Gweithle           |
| • Maes Strategol 6 | Y Seilwaith          |

Gweledigaeth Maes Strategol 2: Plant a Phobl Ifanc yw "Cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith, ynghyd â sicrhau gwell mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg". Canlyniad y Maes Strategol yma yw "Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac yn gweld gwerth i'r iaith".

## 4. Deddfwriaeth a Strategaethau Cenedlaethol

### 4.1 [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru 2010](#)

Mae'r Strategaeth yma yn adeiladu ar [Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog](#), drwy ganolbwyntio ar ddatblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gweledigaeth y strategaeth ydi "Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle".

Ceir 6 nod strategol yn y ddogfen:

1. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.
2. Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.
3. Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.
4. Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.
5. Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.
6. Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

Ceir yn y ddogfen hefyd 5 deilliant penodol:

1. Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
3. Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
5. Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar dargedau cynnydd ac wedi eu cyflwyno fel rhan o'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'r Adran Addysg a Sgiliau sy'n eu monitro'n flynyddol.

#### 4.2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gwneud Awdurdodau Lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r cynlluniau cyntaf o dan y trefniadau statudol hyn yn weithredol ers 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Mae gofyn i Awdurdodau Lleol adolygu eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn flynyddol, ynghyd ag adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r awdurdod yn adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r wybodaeth am niferoedd a chanrannau sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i'w gweld yn **Atodiad 6**.

### **5. Polisi Iaith Addysg Gwynedd a Chynlluniau Strategol Lleol**

#### 5.1 Polisi Iaith Addysg Ysgolion Gwynedd

Nod y Polisi Iaith Addysg [1996] yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed-berthnasol, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed perthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ogystal â datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwiadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, bydd mwyafrif yr ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd CA1.

Yn yr ardaloedd fwy Seisnigedig disgwylir i ysgolion roi cyfle i ddisgyblion ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib, gan weithredu ar y

dogfennau: 'Gosod Sylfeini Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar' a 'Cynllunio Datblygiad Iaith yn yr ardal oedd Seisnigedig'.

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol, sef 3+ ar ddiwedd CA2, ddilyn Cymraeg iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11, gan dderbyn asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA3, a sefyll arholiad allanol priodol ar ddiwedd CA4. Disgwylir i'r ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg, trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau.

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn yr ysgol. Mae disgwyl i bob Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nod y Polisi ac i sicrhau fod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol.

Diffinia'r Polisi Iaith Addysg ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd:

CARFAN	DIFFINIAD O'R MATH O DDISGYBL YN ÔL EI ALLU IEITHYDDOL
A	Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol yn y Gymraeg a'r Saesneg
B	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg, ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg
C1	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg
C2	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg, ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg
CH	Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.

Gweler **Atodiad 7** am fanylion llawn.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nod o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am garfanau ieithyddol pob disgybl gan y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganlyn.

Yn achos disgyblion carfanau A a B bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ymarferol bydd o leiaf 70% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos dysgwyr sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau yn y Gymraeg (Carfan C1) cynllunnir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Yn ymarferol bydd o leiaf 50% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos lleiafrif y disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg (carfan C), rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath bydd o leiaf 30% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nod o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynnyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith gynted a phosibl, naill ai trwy fynychu'r Ganolfan Iaith neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

## 5.2 [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2014 – 2017](#)

Prif nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen, yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna plant phobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

Mae Cynllun Strategol 2013-17 yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn o safbwynt y Gymraeg fel iaith ac fel cyfrwng:

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a blynyddoedd cynnar;
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3;
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA3 i CA4;
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen gan arfogi penaethiaid a hyfforddi ein gweithlu i ymgynhydd yn llawn at nod y Cynllun;
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd;
- Datblygu bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2, a 3 yn yr ysgolion uwchradd;
- Cadarnhau gweithrediad y Siarter Iaith ymhob un o'n hysgolion cynradd, gan roi sylw amlwg i hyfforddi'r gweithlu gan ddatblygu'r elfennau cyfrwng a methodoleg;

- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol pobl ifanc yn ein hysgolion uwchradd trwy sefydlu a datblygu cynllun tebyg i Siarter Iaith yr Ysgolion Cynradd.

### 5.3 Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Cyhoeddwyd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn 2014. Nod syml y Siarter Iaith yw arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mewn gair cael y plant i siarad Cymraeg. I wneud hyn, mae gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol – y cyngor ysgol, y disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, y gweithlu a'r gymuned ehangach.

Defnyddir saith nod y siarter fel offerynnau i fesur cynnydd yn y defnydd o'r iaith ynghyd â llwyddiant cynlluniau gweithredu'r ysgolion.

Er mwyn i bawb gael eu gwobrwyo ar sail eu hymdrechion, sefydlwyd yr egwyddor fod pob ysgol yn gosod ei weledigaeth heriol a chyraeddadwy ei hun. Mae hyn yn cydnabod bod amgylchiadau pob ysgol yn wahanol, ac yn rhoi cyfle i bob ysgol wireddu ei gweledigaeth a'i rhaglen weithredu unigryw ei hun.

Mae'r Siarter Iaith yn cynnwys Rhaglen Weithredu y gall pob ysgol ei chwblhau i anelu at y gwobrau Efydd, Arian ac Aur. Mae'r Rhaglen Weithredu yn seiliedig ar weledigaeth unigryw pob ysgol, a'r camau a ystyrir yn arfer dda y dylai pob ysgol eu meithrin.

Gosodir gwaelodlin i fesur llwyddiant i wireddu'r nod o gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mae holiadur wedi ei lunio i blant CA2 i'w gwblhau ar-lein i gofnodi eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ysgol, ar yr iard yn y gymuned. Rhydd y data o'r holiadur dystiolaeth bendant o'r sefyllfa ieithyddol ymhob ysgol ar ffurf gwe iaith. Gweler **Atodiad 8** am we iaith y tri dalgylch. Defnyddir yr holiadur i osod gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg ar ddechrau'r flwyddyn addysgol, ac yna ail-wneir yr holiadur yn ystod Tymor y Gwanwyn er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y waelodlin a sefydlwyd.

### 5.4 Adroddiad Cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd (Trywydd 2014)

Ym mis Mawrth 2014, comisiynwyd cwmni Trywydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Rhannwyd gwaith y comisiwn fel a ganlyn:

- Cynnal arolwg cynhwysfawr o ddefnydd cyfredol pobl ifanc o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth yn yr 14 ysgol uwchradd



yng Ngwynedd, a chanfod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y bobl ifanc;

- Cynllunio a chynnal gweithdy er mwyn cael mewnbwn y bobl ifanc eu hunain i gynllunio a datblygu dilyniant i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd;
- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, llunio cyfres o gynigion arloesol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg;
- Cyflwyno cynigion ynghylch sut i fesur llwyddiant unrhyw gynlluniau a weithredir, hynny yw, y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol o ganlyniad i unrhyw ymyraethau a weithredir.

Wrth ymateb i ofynion y briff, trefnwyd ymweliadau â holl ysgolion uwchradd Gwynedd am ddiwrnod cyfan yr un er mwyn cynnal yr arolwg ysgol-gyfan. Trefnwyd grwpiau ffocws eang a chynrychioliadol gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgolion, a chynhaliwyd holiadur meintiol electronig (drwy beiriannau Qwizdom) gyda disgyblion blwyddyn 9 ymhob ysgol. Yn ogystal â'r diwrnodau ymchwil, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod y cyfnod gyda staff Hunaniaith, Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, arweinwyr cymunedol yn y sir (yr Urdd, CFFI, Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor Sir a'r Canolfannau Hamdden), a Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg Cyngor Gwynedd.

Mae'r canfyddiadau'n amrywio'n helaeth rhwng gwahanol ysgolion ac ardaloedd, ond adnabuwyd saith prif faes ar lefel sirol, sef:

i) Diffinio natur ieithyddol yr ysgolion

Roedd ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â natur ieithyddol yr ysgolion. Nid oedd yn eglur i'r rhanddeiliaid a yw'r ysgol yn Ysgol Gymraeg naturiol, yn Ysgol Ddwylieithog, neu'n Ysgol Saesneg (mewn ambell achos).

ii) Y modd y mae'r ysgolion yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Mae angen bod yn glir am y manteision sy'n perthyn i addysg Gymraeg/dwylieithog, a rhannu'r rheiny'n helaeth gyda rhieni a disgyblion

iii) Defnydd iaith a'r Cwricwlwm

Roedd amrywiaethau o fewn ysgolion y sir o safbwynt yr iaith a ddefnyddir mewn gwahanol sefyllfaoedd:

- Cymraeg yw'r brif/unig iaith
- Saesneg yw'r brif/unig iaith
- Dwyieithrwydd yn ei amryw ddiffiniad

iv) Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth

Mae'r ysgolion yn ficrocosm o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y cymunedau o'u cwmpas, ac mae'r ystod ieithyddol yma'n eang iawn.

v) Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y plant

Adnabuwyd y prif rai fel a ganlyn:

- Y cartref/teulu
- Ffrindiau a chyfoedion
- Y gymuned leol
- Eu hyder i ddefnyddio iaith
- Arferion iaith (yn cynnwys yr ysgol gynradd)

vi) Agweddau tuag at y Gymraeg

Ar y cyfan, roedd agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol iawn. Cafwyd enghreifftiau unigol o agweddau heriol tuag at y Gymraeg (o blith disgyblion ac oedolion mewn ambell ysgol).

vii) Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol

57% o ddisgyblion yr arolwg meintiol, a nododd eu bod yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd y tu allan i fywyd yr ysgol mewn gwahanol gyd-destunau yng Ngwynedd.

## 6. Cymariaethau Perfformiad Ac Archwiliadau Allanol

### 6.1 Un dangosydd perfformiad cenedlaethol sydd yn bodoli:

**EDU/006ii** - Canran y disgyblion a aseswyd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed). Mae [Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd](#) ar gyfer 2013/14 yn adrodd ar berfformiad y dangosydd hwn fel a ganlyn:

2011 / 12	2012 / 13	2013 / 14	Uchelgais 2013/14	Cyfartaledd Cymru	Cyfartaledd Teulu	Tuedd	Perfformiad yn erbyn Cymru
83.10	86.10	82.50	88	17.01	32.78	Gwaeth-ygu	↑

Mae safle we ['Fy Nghyngor Lleol'](#) yr Uned Ddata Llywodraeth Cymru yn dangos bod perfformiad Cyngor Gwynedd yn 2013-14 y gorau yng Nghymru o ran y mesurydd EDU/006ii (Cyfnod Allweddol 3).

### 6.2 [Adroddiad Uned Ddata Llywodraeth Cymru](#) ar berfformiad Awdurdodau Lleol (2013-14)

Nodir ar dudalennau 18-19 yn yr adroddiad: 'Cododd canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd unwaith eto o 82.8% yn 2012-13 i 84.6% yn 2013-14. Yr oedd hyn yn amrywio o 89.3% yn Sir Fynwy i 80.1% ym Mlaenau Gwent.

Dros yr un cyfnod, cododd canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a

gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd hefyd o 72.7% i 77.2%. Roedd hyn yn amrywio o 85.4% yng Ngwynedd i 64.5% ym Mlaenau Gwent.

Yn 2013-14, cyflawnodd 52.5% o ddisgyblion y trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd TGAU A\*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg. (o'u cymharu â 50.7% yn 2012-13). Roedd hyn yn amrywio o 62% yn Sir y Fflint i 39% ym Mlaenau Gwent.'

### 6.3 [Adroddiad Perfformiad Cenedlaethol 2013/14 Llywodraeth Cymru](#)

Mae cyrhaeddiad o ran arholiadau yn dangos bod "Canran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cyflawni'r trothwy cynhwysol Lefel 2, 2013/14 (a)" yng Ngwynedd yn y chwartil uchaf.

### 6.4 [Statiaith - Gwefan ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg](#)

Nodir bod 'dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio rhan amlaf at symudiad disgyblion o ysgol gynradd lle maen nhw'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg drwodd at ysgol uwchradd, h.y. o'r Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnodau Allweddol 3 a 4.' Mae'r siartiau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dangos y ganran a aseswyd mewn Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol ac mae hefyd yn dangos y targedau perthnasol. Mae hefyd yn cynnwys tystiolaeth o 1999 - 2014 am ddilyniant hyd at Gyfnod 3. Mae'r wybodaeth yma yn dangos bod addysg cyfrwng Cymraeg ysgolion uwchradd yn amrywio'n fawr.

Nid yw mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o reidrwydd yn golygu y bydd disgybl, hyd yn oed os bydd yn dilyn cwrs iaith gyntaf mewn Cymraeg iaith (y pwnc), yn astudio llawer o bynciau eraill drwy'r Gymraeg.

Cafwyd tystiolaeth ynglŷn â hyn mewn ateb i [gais rhyddid gwybodaeth](#) am faint o ddisgyblion 15 oed a safodd arholiadau TGAU drwy'r Gymraeg yn ôl pwnc, yn ysgolion uwchradd a chanol Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion yn 2013.

### 6.5 [Adroddiad ESTYN \(Tachwedd 2014\)](#)

Pwrpas yr adroddiad '**Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog**' oedd

- Adrodd ar ddilyniant ieithyddol disgyblion cyfnod allweddol 4 o ran astudio Cymraeg fel iaith gyntaf a chymwysterau eraill drwy'r Gymraeg;
- Arfarnu effeithiolrwydd modelau cwricwlaidd a dulliau addysgu sydd ar waith mewn ysgolion dwyieithog; ac
- adnabod a rhannu arfer dda o ran addysg ddwyieithog.

Prif ffocws yr adroddiad yw'r awdurdodau lleol lle ceir y mwyaf o addysgu dwyieithog, sef awdurdodau Caerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd. Ymwelwyd â phedair Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2014 yn adrodd mai yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chaerfyrddin mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn yr awdurdodau hyn hefyd mae'r gostyngiad mwyaf yn y nifer sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r gostyngiad oddeutu un o bob pum disgybl neu fwy. Mae tua hanner y disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg yng Ngwynedd a Chaerfyrddin.

Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol sydd yn gosod disgwyliadau ar ysgolion i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni targedau uchelgeisiol.

## **7. Gwaith yr Ymchwiliad**

Canfuwyd bod dalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog yn wahanol iawn i'w gilydd o safbwynt ieithyddol. Mae hefyd amrywiaethau o fewn y dalgylchoedd er enghraifft, mae gogledd dalgylch Ardudwy yn ardal Gymreig gydag ardal y de yn fwy Seisnigaidd. Dalgylch Botwnnog yw'r mwyaf Cymreig o'r dalgylchoedd dan sylw. Mae amrywiaethau eraill ym Mangor, gydag ardaloedd Cymraeg, ardaloedd Saesneg ac ardaloedd sydd yn bwydo'r Brif Ysgol ac Ysbyty Gwynedd.

Mae diffiniad natur ieithyddol Ysgolion Cyngor Gwynedd yn wahanol i ddiffiniad Llywodraeth Cymru sydd yn rhan o'r dryswch o ran dehongli'r diffiniad. Mae'r aneglurder yn creu ansicrwydd i staff, rhieni a disgyblion. Canfuwyd bod gweithrediad y Polisi Iaith yn anghyson ar draws y sir a'i bod yn her i weithredu'r Polisi heb yr eglurder i staff, rhieni a disgyblion ar y diffiniad ieithyddol. Cadarnheir y canfyddiadau hyn yn adroddiad Trywydd ble adroddir ar yr amrywiaeth sydd yn bodoli yng ngweithrediad y Polisi Iaith ac yr ansicrwydd sydd yn bodoli o ran diffiniad ieithyddol ysgolion.

Canfuwyd yr angen i'r Cyngor gefnogi Ysgol Friars i adnabod cyfleoedd pellach i wneud cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.

Canfuwyd bod angen cryfhau atebolrwydd yr ysgolion a'r llywodraethwyr am weithrediad y Polisi Iaith.

Gwelwyd yr angen i farchnata manteision dwyieithrwydd yn yr ysgolion, ar wefannau'r ysgolion ac ymysg rhieni.

Deallwyd bod deunyddiau dwyieithog yn brin iawn yn ambell bwnc ac mae angen deunyddiau digidol / cyfrifiadurol a llyfrau testun Cymraeg.

Canfuwyd bod dysgu'n ddwyieithog yn amrywio o ysgol i ysgol ac o ganlyniad nid oes cysondeb yn nulliau dysgu dwyieithrwydd ar draws y sir.

Mae'r Canolfannau Iaith yn llwyddo ac yn enwedig gyda'r sector cynradd, gydag ôl-ofal y Canolfannau yn effeithiol dros ben. Gwelwyd yr angen am ddarpariaeth debyg i'r Ganolfan Iaith sydd ym Maesincla ar gyfer Bangor a chynllun trochi yn Ysgol Ardudwy. Canfuwyd bod rhai ysgolion yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Canolfannau Iaith na'i gilydd ac nad oedd yr ysgolion yn cymryd y cyfle i fynychu'r Canolfannau Iaith i weld y gwaith sydd yn mynd ymlaen yno. Canfuwyd bod staff yr ysgolion angen cefnogaeth y Cyngor i weithredu'r pecyn ôl-ofal gyda'r angen i gynnal hyfforddiant addas ar gyfer rhai athrawon a chymorthyddion i ddefnyddio patrymau iaith y Canolfannau Iaith.

Mae rôl y Cyd-gysylltwyr Iaith Gynradd yn hanfodol i arwain y staff o ran datblygiadau diweddaraf, newidiadau i'r cwricwlwm, monitro gwersi a gweithrediad y flaenoriaeth ieithyddol yng nghynlluniau'r Ysgol.

Canfuwyd nad oedd trefn gadarn yn bodoli ar gyfer rhannu arfer dda'r Canolfannau Iaith a fyddai'n galluogi'r ysgolion i gefnogi a chysoni gweithrediad y Polisi Iaith ar draws y sir.

Canfuwyd bod tracio dilyniant ieithyddol disgyblion yn digwydd yn y sector cynradd ond nid oedd trefn gadarn yn bodoli ar gyfer y sector uwchradd.

Canfuwyd yr angen i'r Cyngor sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gefnogi'r Ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'u gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg.

Neges gyffredinol a glywyd oedd bod angen i wasanaethau Hamdden, Ieuencid ac eraill gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Casglwyd bod y mwyafrif o'r rhieni wnaeth gwblhau'r holiadur wedi'u hargyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant, gyda nifer fechan o'r farn y dylai'r polisi alluogi ysgolion i addysgu trwy gyfrwng y Saesneg gan ddysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig. Barn nifer fechan o rieni oedd y dylid addysgu rhai pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Yr oedd nifer fechan o ddalgylch Bangor a Botwnnog yn dweud bod gormod o ffocws ar y Gymraeg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg.

Gwelwyd bod ymatebion rhieni ysgolion dalgylch Bangor yn dangos lefel is o ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith yr ysgol, y Siarter Iaith a manteision dwyieithrwydd. Gwelwyd bod nifer sylweddol is yn dalgylch Bangor yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yr oedd nifer eraill o rieni Bangor yn nodi bod angen cryfhau Polisi Iaith Cyngor Gwynedd gan sicrhau bod pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn y Polisi. Yn ogystal, gwnaed sylwadau am yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd y dystiolaeth gan ddisgyblion yn cadarnhau bod y penaethiaid a'r athrawon ym mhob ysgol ar wahân i Ysgol Friars yn arddel y Gymraeg. Canfuwyd tra bod y penaethiaid ac athrawon yn medru, ac yn arddel, y Gymraeg, ceir nifer o ysgolion ble mae amgylchedd ieithyddol Gymraeg yr ysgol yn cael ei ddylanwadu gan ddiffyg gallu Cymraeg rhai cymorthyddion a staff eraill.

Mae'r arfer o siarad Cymraeg gan blant gyda ffrindiau a phob cyfle tu hwnt i'r dosbarth yn gryf iawn gan rhai disgyblion ac mewn rhai ysgolion yn fwy na'i gilydd. Mae'r duedd i blant o deuluoedd di-gymraeg, yn enwedig, i gyfyngu eu defnydd o'r Gymraeg i ystod o gyd-destunau addysgu cyfyngedig yn ffenomenon gyffredin.

Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn gefnogol o'r Gymraeg. Awgryma data'r grwpiau ffocws bod gwerthoedd negyddol tuag at y Gymraeg gan rai disgyblion mewn rhai ysgolion. Amlygwyd yn ogystal nad yw disgyblion o reidrwydd yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am y Siarter Iaith nac yn cael cynnig eu syniadau eu hunain dros arferion ieithyddol yr ysgol. Gwelwyd hefyd bod beirniadu a chosbi disgyblion am siarad Saesneg yn wrthgynhyrchiol.

Cymysg yw'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg wrth addysgu a dysgu, gyda rhai ysgolion a rhai athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ddwy iaith na'i gilydd.

## 7.1 Cyfarfodydd gyda'r Penaethiaid Cynradd

Yn gyffredinol roedd barn bod y Polisi Iaith yn llwyddiant o ystyried bod plant yn dod i'r ysgol yn ddi-gymraeg ac yn mynd o'r ysgol yn gallu siarad Cymraeg a bod ewyllys da i ddysgu'r iaith ymysg y plant a'u teuluoedd. Gwelir budd o'r Polisi Iaith ac fe welir llwyddiant pan fydd plant di-gymraeg yn cael eu trochi yn y Gymraeg gan ddod yn siaradwyr Cymraeg mewn ychydig fisoedd.

Yr oedd ethos Gymraeg yn yr ysgolion cynradd er bod y disgyblion yn tueddu i siarad Saesneg yn gymdeithasol yn yr ysgolion hynny a oedd efo mwyafrif y disgyblion gyda'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.

Deallwyd bod y Llywodraethwyr yn gyffredinol yn gefnogol iawn i'r Gymraeg, ac yn awyddus i'r plant fod yn ddwyieithog, gan weld hynny fel mantais.

Yr oedd y penaethiaid yn ystyried y Siarter Iaith fel cyfrwng i'w galluogi i wneud gwahaniaeth. Roedd y penaethiaid o'r farn fod y Siarter Iaith yn gyfrwng i roi hwb i'r plant a chodi ymwybyddiaeth rhieni i ddeall pwysigrwydd manteision dwyieithrwydd. Awgrymwyd y dylid cynnal mwy o weithgareddau fel jambori, a hyrwyddo modelau rôl fel y gwnaethpwyd gyda Malcolm Allen ac Ed Holden.

Yr oedd y penaethiaid o'r farn bod y Canolfannau Iaith yn llwyddiannus iawn a byddai mwy o ôl-ofal yn fanteisiol i'r disgyblion. Yn ogystal nodwyd yr angen i

gydweithio efo darparwyr Cymraeg i Oedolion a hyrwyddo mwy ar y Canolfannau Iaith. Nodwyd pryder bod tuedd gan rieni i annog eu plant i wneud pynciau drwy gyfrwng y Saesneg yn yr Ysgol Uwchradd.

Yn gyffredinol dylid hyrwyddo i wneud y Gymraeg yn 'cŵl' ac annog plant i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn gyhoeddus a defnyddio Apps Cymraeg.

Yr oedd y penaethiaid o'r farn bod angen magu hyder staff ysgolion drwy gynnal hyfforddiant i

- oruchwylwyr amser chwarae, staff amser cinio, athrawon a rhieni.
- i athrawon ar wella sgiliau addysgu dwyieithog.

### Dalgylch Ardudwy

Yn y cyfarfod, nododd Pennaeth Ysgol Tanycastell ei bod yn anos gweithredu'r polisi iaith pan mae plant yn cyrraedd yn hwyrach yn y flwyddyn addysgol. Cyfeiriodd at enghraifft o dri disgybl sy'n mynychu'r Ganolfan Iaith, er eu bod bellach yn siarad Cymraeg yn yr ysgol, nid ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref. Ar wahân i'r disgyblion sy'n mewnfudo i'r ardal ac yn dod i flynyddoedd hŷn yr ysgol, mae pob plentyn arall yn gadael yr ysgol yn 11 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Yn ein cyfarfod gyda Phennaeth Ysgolion Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau deallwyd bod y ddwy ysgol yn hollol wahanol i'w gilydd o ran eu natur ieithyddol. Yn Ysgol Dyffryn Ardudwy mae 80% o'r disgyblion yn hanu o gartrefi di-gymraeg ac mae tuedd ymysg rhieni i beidio dewis siarad Cymraeg gyda'u plant. Mae teuluoedd sydd yn bwydo'r ysgol yn hanu o ardal Birmingham a rhai cyn-ddisgyblion o'r ysgol yn dewis siarad Saesneg gyda'u plant. Mae'r staff yn siarad Cymraeg gyda'r plant drwy'r amser yn Ysgol Dyffryn Ardudwy a defnyddir cyfarwyddiadau Saesneg er sicrhau dealltwriaeth y plant. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd penodol i'r disgyblion ddysgu am Gymreictod a hunaniaith Gymreig, a'u hannog i gystadlu mewn Eisteddfodau ac ati. Yn Ysgol Talsarnau mae oddeutu 50-60% o'r disgyblion yn hanu o aelwydydd Cymraeg a Chymraeg yw iaith naturiol yr ysgol.

O safbwynt hyrwyddo'r iaith, nodwyd ei fod yn dalcen caled iawn i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned a gyda rhai rhieni yn ne dalgylch Ardudwy. Nodwyd bod tueddiad gan rieni Cymraeg yr ardal i siarad Saesneg gyda'r plant.

### Dalgylch Bangor

Yr oedd penaethiaid dalgylch Bangor yn teimlo bod rhagfarn annheg am ddarpariaeth y Gymraeg yn y dalgylch, a bod angen cydnabod y gwaith da mae'r ysgolion yn ei gyflawni Mae nifer helaeth o aelwydydd Bangor yn ddi-

Gymraeg, er hyn, mae'r plant yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. Nodwyd nad oes diwylliant Cymraeg a Chymreig yn aelwydydd Bangor yn gyffredinol. Mae plant teuluoedd dosbarth canol yn siarad Cymraeg efo'u rhieni ond yn siarad Saesneg efo plant eraill, gyda rhai yn magu eu plant yn y Saesneg.

Yn achos Ysgol Cae Top mae disgyblion yn meddu ar 5 neu 6 iaith, gyda'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae dros 20 iaith wahanol yn cael ei siarad yn Ysgol Cae Top ac mae'r ysgol yn gweithio'n agos efo'r Cydlynnydd Iaith Uwchradd. Nodwyd fod yr ysgolion yn gweithio'n galed i drochi'r disgyblion yn y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg. Mae staff o bob ysgol wedi bod ar gwrs chwaraeon buarth ac mae'r disgyblion yn derbyn gwobr os ydynt yn trafod yn y Gymraeg. Cadarnhawyd fod y penaethiaid yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn llwyr sylweddoli'r her sydd yn eu hwynebu. Nodwyd na fyddai rhai disgyblion yn debygol o gael cymhwyster uchel yn y Gymraeg, er hyn bod ganddynt y sgiliau i siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Ar un adeg yr oedd cystadleuaeth fawr am niferoedd i'r ysgolion yn y dalgylch, ond erbyn hyn nid oes cystadleuaeth gan fod pawb yn gweithio i'r un polisi iaith. Yr oedd rhai penaethiaid yn ei chael yn anodd gweithredu'r Polisi Iaith yn wyneb gwrthwynebiad gan nifer fechan o rieni. Pryder rhai rhieni yw methu cynorthwyo eu plant gyda gwaith cartref.

#### Dalgylch Botwnnog

Dalgylch Botwnnog yw'r mwyaf Cymreig o'r dalgylchoedd dan sylw gyda theimladau'r disgyblion yn gryf tuag at y Gymraeg. Yn ein cyfarfod gyda Phennaeth Ysgol Nefyn dywedodd fod yr iaith Gymraeg yn rhan naturiol o iaith bob dydd y plant. Prin iawn yw'r achosion o droi i'r Saesneg yn yr ysgol. O ganlyniad, ychydig o ymdrech a oedd angen i'r ysgol ei wneud i wireddu nod y Siarter Iaith yn ôl y pennaeth.

Yn y cyfarfod gyda phenaethiaid y dalgylch deallwyd bod yr ardal yn Gymraeg a bod yr ysgolion yn ymdrechu'n galed i warchod a chynnal yr iaith. Nodwyd fod 74% o ddisgyblion Ysgol Llanbedrog yn hanu o gartrefi di-gymraeg, er hynny, nodwyd fod mwyafrif y rhieni yn gweld gwerth i'r Gymraeg, er ei bod yn anodd newid diwylliant rhai rhieni. Anogir y disgyblion i ddysgu'r iaith yn naturiol a thrwy ddathliadau diwylliannol Cymraeg. Nodwyd y byddir yn trochi disgyblion di-gymraeg yn syth a byddir yn gwneud defnydd o'r Ganolfan Iaith yn Llangybi sydd i'w chymeradwyo'n fawr. Nodwyd fod y rhieni'n awyddus i'w plant fynychu'r Ganolfan Iaith. Cafwyd enghreifftiau o ddisgyblion oedd yn ddihyder wedi manteisio ar lefydd gweigion yn y Ganolfan er gloywi'r iaith a bod naw hwyrdyfodiad oedd wedi mynychu'r Ganolfan nawr yn rhugl yn yr iaith.

## 7.2 Cyfarfodydd gyda'r Penaethiaid Uwchradd

Yr oedd barn gref bod angen arweiniad ar beth yn union yw 'Ysgol Ddwieithog' a sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â'r Polisi Iaith gan ddefnyddio grym y Cyngor i sicrhau gweithrediad.



Nodwyd yr angen i ysgolion gydweithio a'i gilydd yn hytrach na chystadlu yn erbyn â'i gilydd am ddisgyblion.

Er cryfhau dysgu dwyieithog, credir bod angen sicrhau cysondeb yn nulliau dysgu dwyieithrwydd ar draws yr ysgolion, eglurder a diffiniad o'r hyn a olygir gyda dysgu dwyieithog, gan hybu sgiliau o drawsieithu ymysg y gweithlu.

Gwerthfawrogir a chanmolir y gwaith a wneir yn y Canolfannau Iaith a'r ôl-ofal wedi i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol.

Mynegwyd barn na ddylid gorfodi a gwobrwyo disgyblion am ddefnyddio'r Gymraeg, ond yn hytrach, sicrhau hinsawdd Gymreig ymhob ysgol.

Dylid marchnata manteision dwyieithrwydd yn well gan hyrwyddo bod gwir fanteision ar gael i ddisgyblion drwy fod yn rhugl mewn dwy iaith, ac astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ysgol Ardudwy

Mae'r Ysgol wedi ei lleoli mewn ardal ieithyddol Gymraeg gyda mwy o ddefnydd o'r Gymraeg i'r gogledd a llai i'r De. Mae naws yr ysgol yn Gymreigaidd ac nid yw'r ysgol yn rhoi dewis i'r disgyblion wneud pynciau drwy gyfrwng y Saesneg ac o'r herwydd mae rhai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion uwchradd eraill.

Ysgol naturiol ddwyieithog yw Ysgol Ardudwy ac mae Polisi Iaith yr Ysgol yn datgan 'Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg'. Nodwyd mai dim ond oddeutu 32% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg, gyda 9% arall gydag un rhiant yn siarad Cymraeg ond ni ystyrir y cartrefi hyn yn rhai Cymraeg eu hiaith. Mae cryn her felly wireddu polisi iaith yr ysgol.

Ni weithredir cynllun trochi yn yr ysgol gan fod y disgyblion rheiny sydd yn trosglwyddo i'r uwchradd heb lefel 3 yn y Gymraeg fel arfer yn blant anghenion addysgol ychwanegol neu'n hwyrdyfiaid.

Ceir tri grŵp dysgu, mae 2 grŵp yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a chriw bach arall yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae mwy o ddwyieithrwydd yn sgil yr angen i osod disgyblion mewn setiau yn y pynciau craidd. Y set waelod sydd fel arfer yn ddwyieithog, ond mae o leiaf 80% o'r addysgu'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o'r pynciau yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ysgol wedi newid a chryfhau'r Polisi Iaith erbyn hyn, gyda'r mwyafrif helaeth yn sefyll arholiadau craidd yn y Gymraeg. Disgwylir i bawb sydd yn gwneud Cymraeg fel iaith gyntaf sefyll yr arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ambell ddisgybl yn sefyll un neu ddau bwnc drwy gyfrwng y Saesneg.

Deallwyd bod deunyddiau i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn brin mewn ambell bwnc ac mae'r athrawon wedi gorfod creu'r adnoddau yn y Gymraeg eu hunain.

O ran hwyrddyfodiaid, mae gan yr Adran Gymraeg gynllun i geisio sicrhau datblygiad y Gymraeg trwy dynnu disgyblion o gyfnodau gwasanaeth i geisio hyrwyddo defnydd llafar o'r iaith. Mae pob disgybl CA3 sydd yn hwyrddyfodiaid wedi mynychu'r Ganolfan Iaith ac mae'r rhieni wedi bod yn gefnogol iawn ac yn falch o'r cyfle. Ceir disgyblion yn siarad Cymraeg er bod y rhieni yn Saesneg.

Mae'r Corff Llywodraethwyr yn gadarn yn eu cefnogaeth i'r Polisi Iaith. Gweithredir nifer o weithgareddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg e.e. sioeau cerdd a chlybiau ôl ysgol.

O ran staff yr ysgol mae'r athrawon i gyd wedi derbyn hyfforddiant gan Ganolfan Bedwyr yn 2013 a bu sesiwn pellach yn niwrnod HMS Gwynedd yn 2014. Defnyddir athrawon i arsylwi athrawon eraill er mwyn rhannu arfer dda ac mae hyn wedi arwain at welliant. Mae unigolion wedi cael cyfle i fynychu cyrsiau HMS dysgu Cymraeg drwy gael eu rhyddhau ddiwrnod yr wythnos a chysiau gloywi Cymraeg Llywodraeth Cymru. Nid oes hyfforddiant ffurfiol wedi digwydd i staff ategol ac eithrio i Gymhorthyddion Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cynhelir sesiwn ysgol ganolog i holl staff yr ysgol ar weithrediad y Polisi Iaith ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ysgol.

Credir bod yn rhaid creu awyrgylch Gymraeg yn Ysgol Ardudwy gan fod y Gymraeg yn wan yn y gymuned o amgylch yr ysgol. Cynhelir nifer o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg megis sioeau cerdd, a.y.b.

Byddai Ysgol Ardudwy yn croesawu cynllun trochi er mwyn gallu datblygu mwy o siaradwyr Cymraeg yn enwedig hwyrddyfodiaid.

### Ysgol Botwnnog

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog o ran addysgu ond gydag ethos Cymraeg. Ceir ethos Gymraeg gref yn yr ysgol o 400 o ddisgyblion gyda thri chwarter ohonynt yn dod o aelwydydd Cymraeg a'r chwarter arall yn dod o gartrefi digymraeg, a 98% o'r disgyblion rheiny yn rhugl yn y Gymraeg. Bychan iawn yw'r niferoedd (oddeutu 8) sydd yn mynd i'r Ganolfan Iaith.

Mae pob un o'r staff gan gynnwys y staff ategol yn rhugl yn y Gymraeg, Yr oedd staff ategol yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith.

O ran hwyrddyfodiaid, bydd disgyblion CA3 a CA4 yn mynd i'r Ganolfan Iaith. Bydd bydi iaith ac aelod o staff penodol i gefnogi'r disgyblion hyn wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Ceir enghreifftiau o deuluoedd o Firmingham yn yr ysgol ac yn siarad pob gfael yn y Gymraeg. Teimlir nad yw'r ysgol yn gwthio'r Gymraeg arnynt ond maent yn cymryd yn ganiataol y dylent ddysgu a siarad yr iaith.

Gwneir oddeutu 85% o'r arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chynifer o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 10/11 yn dewis gwneud eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys nifer o ddysgwyr. O'r 8 disgybl sydd wedi mynychu'r Ganolfan Iaith yn Llangybi bu i 5 sefyll arholiad Cymraeg Llên ac Iaith Gyntaf ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa pob blwyddyn. Mae mwyafrif o'r disgyblion sydd wedi mynychu'r Uned Iaith wedi gosod gwreiddiau yn yr ardal ac wedi llwyddo i gael gwaith yn lleol, gyda rhai ohonynt yn grefftwyr.

O ran rhannu adnoddau mae tair ysgol arweiniol sef Dyffryn Ogwen, Botwnnog a Thryfan yn cydweithio ar ddeunyddiau ond cydnabuwyd bod mwy o le i gydweithio rhwng ysgolion y Sir.

Nodwyd fod Ysgol Botwnnog yn gweithredu Gwobr Dysgwr y Flwyddyn a bod unrhyw beth yn rhoi clod a bri i'r iaith i'w groesawu.

### Ysgol Friars

Fel Ysgol Tryfan mae Ysgol Friars mewn ardal gymhleth, gyda dwy ysgol uwchradd yn gwasanaethu'r dalgylch. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio'r ysgol fel Ysgol Saesneg ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Mae'n wahanol i ysgolion eraill yr awdurdod heblaw am Ysgol Tywyn sydd yn debyg iawn o safbwynt ieithyddol. Cydnabuwyd bod dipyn o waith i'w gyflawni i roi mwy o statws i'r iaith Gymraeg.

Mae 50% o'r disgyblion yn hanu o leiafrif ethnig gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt ac mae hyn yn debygol o fod oherwydd dylanwad y Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd fel cyflogwyr. Daw nifer o ddisgyblion i'r ysgol yn sgil cyflogaeth dros dro eu rhieni, gyda nifer yn hanu o Affrica, China, a.y.b. Mae nifer o'r disgyblion yma yn cyrraedd yr ysgol yn CA4 gyda bron dim gair o Saesneg na Chymraeg ganddynt. Er mwyn eu paratoi fe'i gosodir mewn grŵp addysg benodol (ar gyfer disgyblion dramor) yn yr ysgol. Oddeutu 2 flynedd yn ôl, gwnaethpwyd gwaith ymchwil pryd canfuwyd petai'r ysgol gydag un disgybl ychwanegol yn siarad Arabig byddai'n cyfateb i'r cyfanswm niferoedd o ddisgyblion Cymraeg yn yr ysgol.

Ceir rhwng 40%-48% o ddisgyblion o du allan i'r dalgylch yn mynychu Ysgol Friars gan eu bod yn tueddu i fod eisiau addysg ddwyieithog neu addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Ceir trosiant o oddeutu 10% o gyfnod dechrau i ddiwedd blwyddyn ysgol.

Ceir oddeutu 3.8% o'r disgyblion yn siarad rhywfaint o Gymraeg adref, a 15% yn siarad iaith ar wahân i'r Saesneg neu Gymraeg adref. Cynhelir 3 dosbarth - E, L ac N gyda'r disgyblion gorau o safbwynt yr iaith Gymraeg yng nghategori E ac yn astudio Celf, Ysgrythur a Hanes drwy gyfrwng y Gymraeg - mae'r ysgol yn rhedeg dosbarth arbennig ar gyfer grŵp Cymraeg naturiol. Amserlenni'r dosbarthiadau gyda chymaint o athrawon sydd yn siarad Cymraeg â phosibl. Pan fydd y disgyblion yn dewis eu pynciau yn CA4, ni fyddir yn cadw at yr un model, gan nad yw'r ddarpariaeth ar gael, ond bydd y disgyblion yn parhau i siarad Cymraeg efo'r athro.

Dysgir Addysg Grefyddol a Chelf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae disgyblion yn dod i Ysgol Friars o ysgolion eraill i wneud rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Ysgol Tryfan yn cynnig Cerdd i ddisgyblion Ysgol Friars flwyddyn nesaf. Does dim galw gan bob disgybl i ddysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4, ond pe byddai'r galw yna, nodwyd bod mecanwaith i gydweithio hefo ysgolion eraill i ddiwallu'r angen. Byddir yn cydweithio gydag ysgolion o safbwynt pynciau ôl-16. Nodwyd fod ambell unigolyn wedi nodi awydd i astudio Cymraeg Iaith Gyntaf ar gyfer Lefel A, ac fe wnaed trefniadau i'w galluogi i astudio'r pwnc yn y Coleg.

O safbwynt defnydd y Gymraeg gan ddisgyblion sy'n bwydo i'r ysgol o'r sector cynradd bydd oddeutu 50% gyda sgiliau llafar da yn y Gymraeg (Lefel 4). Mae gan lawer o'r disgyblion o aelwydydd di-gymraeg glust i'r Gymraeg ond sgiliau ysgrifennu gwan yn y Gymraeg. O ran y broses lefelu disgyblion mae'r pwysoli yn yr ysgolion cynradd ar y llafaredd fel a ganlyn (50% llafar, 25% darllen, 25% ysgrifennu). Pan fo athro yn gofyn cwestiwn yn Gymraeg i ddisgyblion byddent yn ymateb yn Gymraeg.

Mae cyraeddiadau gwaith Saesneg y disgyblion yn well na'r Gymraeg ond eto nid oedd y rhain yn disgleirio ychwaith. Canfuwyd o waith plotio a wnaed gan yr ysgol nad oedd sgiliau ysgrifenedig Saesneg y disgyblion yn llawer iawn gwell na'u sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Sefydlwyd Is-bwyllgor o'r Corff Llywodraethol yn ddiweddar dan arweiniad y Cynghorydd Mair Rowlands i bwrpas adnewyddu Polisi Iaith yr ysgol. Nodwyd fod yr Is-bwyllgor yn cwrdd unwaith pob tymor ac mae nifer o faterion yn cael sylw. Gweithredir nifer o weithgareddau i ddatblygu ethos Gymraeg yn yr ysgol a datblygu'r Gymraeg o amgylch yr ysgol.

Yn y gorffennol, nodwyd fod yr ysgol wedi ceisio hybu'r Ganolfan Iaith Uwchradd ymysg disgyblion a rhieni, ond ni fu'r ymdrech yn llwyddiannus wrth ddenu disgyblion i fynychu. Barn y Pennaeth a'r dirprwy oedd bod y gwaith estynnol a wnaed yn y gorffennol gyda disgyblion mwy galluog a rhai ar y ffin yn llwyddiant a byddir yn croesawu adfer y math yma o ddarpariaeth.

O safbwynt staff, nodwyd mai amodau polisi penodi'r ysgol ydoedd bod y Gymraeg yn ddewisol ac nid yn orfodol. Nodwyd y byddir yn ceisio penodi rhywun dwyieithog ar gyfer rhai pynciau yn CA3. Deallwyd bod oddeutu 67% o'r staff yn medru siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio'n gymdeithasol, ond nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceisiwyd trefnu cwrs yn Nant Gwrtheyrn i'r staff, ond yn anffodus ni lwyddwyd i'w gynnal oherwydd amrywiaeth yn ystod gallu yn y Gymraeg rhwng yr athrawon. Roedd 5 o staff yn derbyn gwersi ar ôl-ysgol a rhai eraill yn mynychu gwersi ar liwt eu hunain. Mae'r athro sy'n dysgu ieithoedd modern wedi cyrraedd lefel TGAU yn y Gymraeg. Byddai cwrs gan gyn-athrawes sydd yn deall yr eirfa addysgol yn ddelfrydol.

O ran staff ategol yr ysgol, mae oddeutu hanner y cymorthyddion yn gallu'r Gymraeg, hanner staff y swyddfa, ynghyd a hanner y gofalwyr. Mae rhai o'r staff cinio yn gallu'r Gymraeg, ond tramorwyr yw'r glanhawyr ar y cyfan.

Mae'r elfen ieithyddol yn ffurf o ariannu ysgolion uwchradd, gyda'r ysgolion uwchradd yn derbyn grant y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'r arian grant yn cael ei ddyrannu i'r ysgolion mwyaf Cymraeg yng Ngwynedd. Nodwyd yr angen am eglurder ynglŷn â phwrpas y grant, sef ai ar gyfer hybu defnydd o'r Gymraeg neu i brynu llyfrau. Mae'r lefelau ariannu yn cael effaith ar faterion fel cyfieithu lle byddir yn gorfod talu am gyfieithu dogfennau, a.y.b. Nid oes gan yr ysgol arian hyd yn oed i gyfieithu dogfennau.

### Ysgol Tryfan

Mae'r ysgol mewn ardal gymhleth gyda dwy ysgol uwchradd yn gwasanaethu'r dalgyloch. Mae'n ysgol cyfrwng dwyieithog ond yn cael ei chydabod yn y gymuned fel ysgol Gymraeg.

Mae holl weinyddiaeth yr ysgol yn Gymraeg ynghyd â'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn llwyddo yn y nod bod disgyblion yn gadael yr ysgol yn hyfyw yn y ddwy iaith. Addysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y disgyblion wedi cyrraedd Lefel 3 yn y Gymraeg o ran cyrhaeddiad wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Ceir patrwm o ba ysgolion y trosglwyddir y disgyblion i Ysgol Tryfan, megis Garnedd, Cae Top, Glancegin, Llandygai, a Phantyrhedyn (Conwy). Eleni, am y tro cyntaf mae disgyblion o Ysgol y Faenol yn mynychu'r ysgol. Ceir amrywiaeth o ran hyder yn yr iaith Gymraeg.

Gweithredir cynllun trochi sy'n ddarpariaeth ychwanegol i ddisgyblion gydag athrawes yn cydlynu'r cynllun hwn a chynhelir clwb gwaith cartref i helpu'r disgyblion yn ieithyddol.

O safbwynt arholiadau, byddir yn cofrestru disgyblion gyda CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru), gyda disgyblion yn cael dewis ym mha iaith y dymument eistedd yr arholiad.

Nodwyd ei bod yn her i gynnal y Gymraeg er yr hyrwyddir y Gymraeg bob cyfle a geir. Atgoffir disgyblion i siarad Cymraeg heb wthio'n ormodol a cheisir creu hinsawdd Gymreig.

Gwelir yr angen i farchnata manteision dwyieithrwydd yn well.

Nodwyd fod yr ysgol yn cyfieithu llawer ar gyfer unrhyw ddigwyddiad mawr.

### 7.3 Penaethiaid Canolfannau Iaith Sector Cynradd ac Uwchradd

Pwrpas y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog, cyfranogi'n llawn o

brofiadau addysg ddwyieithog ac i ddilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg pan ddychwelant i'w hysgolion.

Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd i weithredu'r Polisi Iaith ac i osod sylfaen dda yn y Gymraeg i fewnfudwyr.

Mae pedair Canolfan Iaith gynradd yng Ngwynedd ac un Canolfan Iaith Uwchradd.

Canolfannau Iaith Cynradd:

Dolgellau  
Llangybi  
Maesincla  
Penrhyndeudraeth

Mae lle i 16 / 18 disgybl i fynychu pob Canolfan Iaith am 12 wythnos ar wahân i Ddolgellau, sydd gyda lle i 8 disgybl yn unig. Cynhelir y cyrsiau 3 gwaith y flwyddyn, unwaith y tymor. Mae dau athro / athrawes ym mhob Canolfan ar wahân i Ddolgellau sydd efo un. Gweler **Atodiadau 9,10,11,12,13,14** am y niferoedd sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith Cynradd. Y nôd ydi i bob disgybl gyrraedd Lefel 2 / 3 o leiaf yn y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan Iaith Uwchradd ar safle Ysgol Eifionydd. Bydd y Ganolfan ar agor am bum niwrnod yr wythnos am gyfnod o wyth wythnos ym mhob un o'r tri thymor. Cyflogir dwy athrawes a chynigir lle i uchafswm o 16 disgybl (sy'n hwyrddyfodiaid) ar gyfer y cyfnodau hyn. Cynigir arlwy o bynciau trawsgwricwlaidd, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol amrywiol ac ymweliadau gan aelodau o'r cyhoedd. Gweler **Atodiad 15,16,17** am y niferoedd sydd wedi mynychu'r Ganolfan Iaith Uwchradd.

Mae cynllun ôl-ofal wedi cychwyn ers Medi 2014 i ddisgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith.

Bydd adroddiad manwl ar gyrhaeddiad ieithyddol a chynnydd pob disgybl yn y sgiliau iaith yn cael eu llunio a'i anfon at rieni ac athrawon yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ar ddiwedd pob cyfnod gyda'r sylwadau'n cael eu perthnasu â disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ar gyfer yr uwchradd, manylir ar wyth agwedd gan gynnwys gallu'r disgybl i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â thargedau ar gyfer sicrhau cynnydd pellach. Ar gyfer yr uwchradd, cyflwynwyd strategaeth ôl-ofal manwl y gallai'r ysgolion ei ddefnyddio.

Gweler **Atodiad 18** ar gyfer gwybodaeth tracio Cynradd a gweler **Atodiad 19** am wybodaeth bellach am niferoedd yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.

Cynigir cyrsiau ar gyfer Cymathu Rhieni yn y canolfannau iaith cynradd a gweler **Atodiad 20** am y niferoedd sydd wedi mynychu.

Yng nghyfarfod gyda phenaethiaid y Canolfannau Iaith gwnaed y sylw nad ydi ysgolion yn sylweddoli'r gwaith caled sydd yn cael ei wneud yn y Canolfannau Iaith. Nodwyd pryder fod athrawon yn troi i'r Saesneg efo'r disgyblion ar ôl iddynt fod yn y Canolfannau Iaith. Gwahoddir athrawon i weld y plant yn y Canolfannau Iaith ond nid ydynt yn cymryd y cyfle am nifer o resymau er enghraifft, nid oes athro/awes arall i gymryd eu lle yn yr ysgol. Nodwyd yr angen i'r athrawon ddefnyddio patrymau iaith y Canolfannau Iaith i roi cefnogaeth i'r disgyblion a fu yn y Canolfannau.

Yr oedd penaethiaid y Canolfannau Iaith o'r farn bod diffyg cysondeb yng ngweithrediad y Polisi Iaith a bod angen ei wneud yn fwy ffurfiol a sicrhau bod yr ysgolion yn atebol am ei weithrediad.

Yr oedd penaethiaid y Canolfannau Iaith yn gefnogol iawn i'r Siarter Iaith, a nodwyd yr angen i sicrhau bod gemau buarth Cymraeg ymlaen ym mhob ysgol.

Dywedwyd wrthym "Mae angen cryfhau patrymau iaith cymorthyddion a rhai athrawon. Nodwyd nad oedd rhai athrawon yn hyderus yn y Gymraeg."

Nodwyd mai mympwy ac anghyson gefnogaeth i ddilyniant disgyblion o'r Canolfannau Iaith yn yr Uwchradd, a bod dibyniaeth ar ewyllys da'r ysgol. Deallwyd bod angen cefnogaeth ym mhob ardal, ynghyd ag atebolrwydd.

Gwnaed nifer o sylwadau am yr angen i werthu'r Gymraeg yn well a'i wneud yn 'cŵl' a gwella'r cyfleoedd i arfer da.

Yr oedd penaethiaid y Canolfannau Iaith o'r farn bod angen cyrsiau / hyfforddiant i athrawon ar ôl ysgol, undydd a diwrnod llawn ar y Siarter Iaith.

#### 7.4 Cyd-gysylltwyr/cydlynwyr Iaith Ysgolion Cynradd

Mae'r cyd-gysylltwyr iaith yn gyfrifol am sicrhau fod y Polisi Iaith yn cael ei weithredu a'i ddatblygu yn yr ysgolion, a bod y disgyblion yn hollol hyfedr yn y ddwy iaith, a bod y dysgwyr yn symud yn gyflym i garfan 'A' yn ieithyddol. Maent hefyd yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am lefelau a charfanau iaith ar ddiwedd blwyddyn 6 a'i drosglwyddo i'r sector uwchradd. Gweler **Atodiad 6- Allwedd Carfanau Iaith, Atodiad 21- Crynodeb Lefelau a Charfannau Iaith, Atodiad 22 – Lefelau a Charfannau Iaith 2013 ac Atodiad 23 – Lefelau a Charfannau Iaith 2014**).

Nodwyd hefyd fod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r disgyblion yn llithro'n ôl ar ôl cyrraedd Carfan 'A' drwy ymweld â'r ysgol uwchradd ym mis Hydref i weld sut mae'r disgyblion wedi setlo ac i sicrhau eu bod yn dilyn y trac ieithyddol cywir. Cynhelir sgwrs anffurfiol gyda'r ysgolion ynglŷn â chynnydd ieithyddol y tu hwnt i Flwyddyn 7. Byddir hefyd yn rhannu arferion da, adnoddau a syniadau o fewn cyfarfodydd.

Deallwyd nad rôl y Cydlynwyr Iaith yw herio ysgolion ac mai rôl GwE a'r Awdurdod yw hynny. Ceisir cydweithio gyda'r ysgolion er sicrhau perthynas dda.

Nodwyd fod y dalgylchoedd yn amrywio gydag amrywiaeth o fewn pocedi o'r sir gyda rhai ardaloedd yn derbyn nifer o fewnfudwyr o Ewrop lle nad oes gan y disgyblion ddefnydd o'r Saesneg na'r Gymraeg. Ceisir sicrhau bod y disgyblion hyn yn cyrraedd Lefel 3 cadarn mewn ysgrifennu.

Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion y cynradd yn cyrraedd yr uwchradd gyda Lefel 4 cadarn yn y Gymraeg, ac maent ar ddeall bod 70% o'r gwersi CA3 drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd yr angen i sicrhau a chysoni tracio o'r Cynradd i'r Uwchradd ar draws Gwynedd.

Yr oedd barn unfrydol bod y Canolfannau Iaith yn llwyddo yn enwedig gyda'r sector cynradd gyda'r camau ôl-ofal yn effeithiol dros ben. Cafwyd enghreifftiau o lwyddiannau disgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith o wledydd eraill ac erbyn hyn yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yr oedd barn gref bod y Siarter Iaith yn llwyddiannus gan arwain at weithredu nod gyffredin rhwng yr ysgolion.

Nodwyd fod rhai dalgylchoedd o dan bwysau gan rieni i ddarparu taflenni gwaith dwyieithog ar gyfer y disgyblion.

Deallwyd bod rhieni yn hollol hapus pan fo'r plant yn siarad Saesneg a Saesneg gystal â'i gilydd.

## 7.5 Cyd-gysylltwyr/Cydlynwyr Iaith Ysgolion Uwchradd

Mae'r cydlynwyr iaith yn gyfrifol am fonitro carfanau iaith a sicrhau bod disgyblion ar y trac ieithyddol cywir.

Roedd y Cydlynwyr Iaith o'r farn gref bod angen i'r Polisi Iaith fod yn fwy cadarn oherwydd bod ei ddehongliad yn amrywio mewn gwahanol ysgolion. Mae'r amrywiaethau yng ngweithrediad y Polisi yn creu'r argraff i rieni sydd yn symud i'r ardal bod rhai ysgolion yn fwy Cymraeg/Seisnigaidd na'i gilydd. Nodwyd fod y label o bolisi 'dwyieithog', sef y gallu i gyfathrebu yn y ddwy iaith fel ei gilydd, yn cael ei gam ddehongli gan leygwyr a'u bod yn dueddol i gredu mai dwyieithog yw cynnig gwersi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae lle i addysgu'r Llywodraethwyr ar eu cyfrifoldebau.

Roedd y Cydlynwyr Iaith yn unfrydol eu barn bod yr ysgolion uwchradd yn llwyddiannus o ran sicrhau parhad yn nhrac ieithyddol y disgyblion o CA2 i CA3. Er hynny, nodwyd fod rhai disgyblion yn dewis eistedd arholiadau trwy gyfrwng y Saesneg. Deallwyd bellach nad oes tracio pa gyfrwng iaith mae'r disgyblion yn sefyll eu harholiadau, ac yn sgil hynny, nodwyd pryder y gallai rhai disgyblion sefyll arholiad yn y Gymraeg fel pwnc yn unig. Nodwyd fod rhai disgyblion yn dewis eistedd rhai pynciau e.e. Gwyddoniaeth a Mathemateg



trwy gyfrwng y Saesneg, a theimlwyd bod angen bod yn fwy cadarn, gan fod pob disgybl wedi derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly ac nid oes rheswm pam na ellir parhau drwy'r uwchradd yn y pynciau yma.

Yr heriau a wynebier yw cynnal yr iaith Gymraeg, parhau gyda'r Siarter Iaith yn y sector cynradd a chydweithio gyda rhieni di-gymraeg. Cydnabyddir bod angen bod yn greadigol i gynnig profiadau a ffyrdd newydd o ran y ddarpariaeth. Nodwyd yr angen i gael cefnogaeth yr awdurdod oherwydd ni all ysgolion newid y sefyllfa ar eu pen eu hunain.

Cadarnhawyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y Saesneg gystal â'r Saesneg yn Lloegr ac mae angen ymfalchïo bod profion Saesneg yn gyfartal â Lloegr. Gwelir yr angen i geisio cael rhieni di-gymraeg yn gefnogol i'r iaith Gymraeg a marchnata'r Gymraeg yn well drwy amrywiaeth o gyfryngau.

## 7.6 Cyfarfod gyda Swyddogion Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor

Gobaith yr Ysgol Addysg ydi cynhyrchu'r athrawon gorau ar gyfer Gwynedd. Adroddwyd bod cyrsiau hyfforddi athrawon angen TGAU gradd B mewn iaith Saesneg a Mathemateg, ond gradd C neu uwch sydd ei angen yn y Gymraeg. Nodwyd y byddai nifer llai o fyfyrwyr ar y cyrsiau pe penderfynir gosod gofyn am radd B yn y Gymraeg hefyd – byddai hyn yn ei dro yn arwain at brinder athrawon.

Nododd swyddogion yr Ysgol Addysg fod addysgu dwyieithog a dulliau addysgu dwyieithog yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae darpariaeth yn ystod eu hamser fel darpar athrawon yn yr ysgolion yn cynnwys y gefnogaeth o gwmpas yr ysgol, datblygiad iaith ar y buarth a gwersi. Nid yw'r Brifysgol yn hyrwyddo un dull o addysgu dwyieithog gan fod rhaid i'r myfyrwyr ddilyn polisi iaith yr ysgol unigol – cyfrifoldeb yr ysgol unigol yw gosod y disgwyliadau mewn perthynas ag addysgu dwyieithog myfyrwyr. Mae'r Brifysgol mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i hyfforddi darpar athrawon ac mae safonau mae'n rhaid i'r myfyrwyr gyrraedd o ran profiad o ddatblygu sgiliau plant heb y Gymraeg na'r Saesneg. Deallwyd bod angen cyrraedd â'r safonau ar gyfer derbyn Statws Athro Cymwysedig (SAC) ond nid oes gofyn penodol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg plant. Awgrymwyd bod angen creu safon i athro ddatblygu sgiliau dwyieithog.

Defnyddir gwahanol fodelau dysgu gan yr Ysgol Addysg: un grŵp Cymraeg, un di-gymraeg ar wahân. Rhai yn defnyddio 'PowerPoint' ac yn trawsieithu ac eraill yn cyflwyno drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd a dyma'r modelau mae'r Brifysgol yn ymarfer. Deallwyd bod Cynllun Colegau Cymru yn hyfforddi myfyrwyr drwy ddefnyddio modiwlau ar gyfer addysgu'n ddwyieithog.

Mae disgwyl i bob athro nawr gynnal y cofrestru yn y bore drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio termau dwyieithog.

O ran y gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar athrawon Cynradd, bydd y Darlithydd Cymraeg ail iaith yn cynnal sesiynau gloywi iaith a sesiynau

Cymraeg Achlysurol ar gyfer darpar athrawon heb y Gymraeg. Ar gyfer y darpar athrawon sy'n dilyn y cwrs dwyieithog darperir hyfforddiant mewn agweddau ieithyddol ar addysgu'n ddwyieithog mewn un sesiwn yr wythnos.

Yn gyffredinol, bydd myfyrwyr yn dod i sesiynau gloywi iaith ac wrth eu bodd. Maent yn dweud eu bod eisiau'r gefnogaeth. Adroddwyd bod rhai siaradwyr Cymraeg yn dewis astudio'r cwrs drwy gyfrwng y Saesneg am wahanol resymau - diffyg hyder, eisiau symud i Loegr, ayyb.

Mewn ymateb i sylwadau a glywyd gan rai penaethiaid ysgolion am safon iaith athrawon newydd, adroddodd swyddogion yr Ysgol Addysg ar y broses mynediad. Mae'r broses yn cynnwys profion mynediad sydd yn cael eu monitro gydag asesiad ar y cychwyn ac ar ddiwedd y cwrs. Trafferthion atalnodi sydd yn codi'i ben ran amlaf a byddir yn helpu'r myfyrwyr hyn.

Mae'r Brifysgol wrthi'n gwerthuso Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd i weld pa mor llwyddiannus ydyw. Mantra'r Siarter Iaith ydi 'Tân yn eu boliau' ac mae'n ymddangos bod pobl wedi pleidleisio efo'u traed drwy fod eisiau gwneud y cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgolion lleol a'r Brifysgol yn gwneud eu gorau a'r plant eisiau dysgu Cymraeg. Clywyd bod angen normaleiddio'r Gymraeg ac i bobl arfer ei chlywed fel na fydd ofn y Gymraeg gan bobl.

I sicrhau llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Gwynedd, adroddodd swyddogion yr Ysgol Addysg ei bod yn bwysig iawn sicrhau bo disgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwylidig ac ar yr un lefel yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac o safon uwch yng Ngwynedd na gweddill Cymru. Nodwyd yr angen i fod yn ymwybodol o'r plentyn unigol bob tro a rhaid bod yn fwy gofalus efo'r rhai nad ydynt efo'r un gallu.

#### 7.7 Ymgynghori efo Llywodraethwyr

Ni dderbyniwyd digon o ymatebion i holiaduron y Llywodraethwyr (**Atodiad 24**) fyddai'n ein galluogi i ddehongli eu barn. Er hynny, yr oedd penaethiaid yr ysgolion o'r farn bod y rhan fwyaf o'r Llywodraethwyr yn gefnogol i'r iaith Gymraeg ond nid ydyw hyn yn wir ar draws y sir. Deallwyd y ceir Llywodraethwr penodedig yn gyfrifol am y Gymraeg ond nid yw'r term pencampwr yn cael ei ddefnyddio yn aml. 'Awgrymwyd bod lle i addysgu Llywodraethwyr am eu cyfrifoldebau, ac ar ofynion y Polisi Iaith a'u dal yn gyfrifol am weithrediad y Polisi.

#### 7.8 Barn Rhieni

Ymgynghorwyd gyda rhieni disgyblion drwy holiadur ar-lein ar safle we Cyngor Gwynedd a Gwynedd Ni. Anfonwyd neges at benaethiaid yr ysgolion gyda linc i'r holiaduron ac anfonwyd copïau caled i'r ysgolion hynny wnaeth gais amdanynt. Yn ogystal, hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar safle we'r Cyngor ac yn y wasg.

Cwblhawyd y gwaith yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2015.

Derbyniwyd 233 holiadur ar draws y tri dalgylch. Mae'r tabl isod sydd yn dangos nifer yr holiaduron a dderbyniwyd fesul dalgylch a'r canran o ymatebion yn erbyn poblogaeth ysgolion yn nalgylchoedd Ardudwy, Bangor a Botwnnog.

	<b>Dalgylch Ardudwy</b>	<b>Dalgylch Bangor</b>	<b>Dalgylch Botwnnog</b>	<b>Tu allan i ddalgylchoedd yr ymchwiliad craffu</b>
Rhieni gyda phlant yn y Cynradd yn unig	22	51	31	5
Rhieni gyda phlant yn yr Uwchradd yn unig	1	37		8
Rhieni gyda phlant yn y Cynradd a'r Uwchradd	11	54	10	0
Heb enwi ysgol	-	-	1	2
<b>Cyfanswm Holiaduron</b>	<b>34</b>	<b>141</b>	<b>50</b>	<b>8</b>
<b>Canran ymatebion yn erbyn poblogaeth ysgolion</b>	<b>0.04%</b>	<b>0.05%</b>	<b>0.04%</b>	

Mae dadansoddiadau o'r ymatebion i'r holiaduron ar gyfer rhieni i'w gweld yn **Atodiad 25 – Canlyniadau Holiadur Rhieni**

Nifer fechan o holiaduron a dderbyniwyd ar gyfer y tair ardal a dylid cofio nad yw'n gynrychioladol o rieni'r ardaloedd hyn. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y rhieni yn amrywio. Casglwyd bod y mwyafrif wedi'u hargyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant, gyda nifer fechan o'r farn y dylai'r polisi alluogi ysgolion i addysgu trwy gyfrwng y Saesneg, gan ddysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig.

Gweler bod yr wybodaeth a dderbyniwyd gan rieni dalgylch Bangor yn dangos lefel is o ymwybyddiaeth o Bolisi Iaith yr ysgol, y Siarter Iaith a manteision dwyieithrwydd. O safbwynt y cwestiwn 'A ydych yn credu fod ysgolion yn

Ilwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg?' gwelwyd bod nifer sylweddol is yn nalgylch Bangor yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod hwn.

### Polisi Iaith

Gofynnwyd: 'A ydych yn ymwybodol o Bolisi iaith yr Ysgol ac yn ei ddeall?'. Dengys y canlyniadau fod 77.68% o rieni wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o Bolisi iaith yr ysgol. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o Bolisi iaith yr Ysgol ac yn ei ddeall:

85% - dalgylch Ardudwy  
71% - dalgylch Bangor  
88% - dalgylch Botwnnog

### Manteision Dwyieithrwydd

Yr oedd 83.69% o'r holl rieni wnaeth ateb y cwestiwn perthnasol yn yr holiadur wedi'u hargyhoeddi o fanteision addysg ddwyieithog i'w plant. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol wnaeth ateb y cwestiwn yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog:

85% - dalgylch Ardudwy  
80% - dalgylch Bangor  
90% - dalgylch Botwnnog

### Siarter Iaith

Yr oedd yr holiadur ar gyfer y rhieni yn gofyn y cwestiwn "A ydych yn ymwybodol o'r Siarter iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd?". (Nid oedd disgwyl i rieni oedd efo plant yn yr ysgolion uwchradd yn unig fod yn ymwybodol o'r Siarter iaith). Mae'r ffigyrau isod yn cynnwys ymatebion rhieni a oedd gyda phlant yn yr ysgolion cynradd yn unig. Ar draws y tri dalgylch yr oedd 57.51% yn ymwybodol o'r Siarter iaith. O ran y dalgylchoedd unigol dan sylw, yr oedd y canrannau canlynol yn ymwybodol o'r Siarter iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd:

71% - dalgylch Ardudwy  
52% - dalgylch Bangor  
62% - dalgylch Botwnnog

### Cefnogaeth gan yr ysgolion

Ar draws y tri dalgylch mae'r canlyniadau canlynol yn dangos faint a sut mae'r ysgolion yn helpu rhieni i gefnogi eu plant i gyrraedd y lefelau disgwylidig yn y Gymraeg a'r Saesneg:

	<b>Ymatebion</b>	<b>Nifer holiaduron - 233</b>
Darparu gwybodaeth ar lafar neu ohebiaeth ar fanteision dwyieithrwydd	105	45.06%
Cynnal trafodaethau ar y lefelau disgwylidig mae angen i'm plentyn / plant gyrraedd	142	60.94%
Cynnal trafodaethau am y cymorth yr wyf angen er mwyn helpu fy mhentyn / mhlant i gyrraedd y lefelau disgwylidig	97	41.63%
Arall	52	22.32%

Gwelwyd bod rhieni wedi cael cyfle i drafod y materion isod sy'n ymwneud â'r Gymraeg gyda'r ysgolion:

	<b>Ymatebion</b>	<b>Nifer holiaduron - 233</b>
Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn y Canolfannau Iaith	30	12.88%
Y gefnogaeth sydd ar gael i'm plentyn / plant yn yr ysgol	55	23.61%
Sgiliau Cymraeg fy mhentyn / mhlant	113	48.50%
Gwersi Cymraeg lleol ar gyfer rhieni	34	14.59%
Polisi Iaith yr Ysgol	71	30.47%
Y Siarter Iaith sydd gan yr ysgolion cynradd	46	19.74%
Addysgu Cymraeg fel pwnc	61	26.18%
Addysgu pynciau eraill drwy'r iaith Gymraeg	60	25.75%
Arall	48	20.60%

Sgiliau / gallu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ar draws y tair ardal yr oedd y data ar gyfer y cwestiwn 'A ydych yn credu fod ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau / allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg?' yn dangos bod 39.91% yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo, gyda 41.20% ddim yn credu, a 14.16% ddim yn gwybod a 4.72% heb ateb.

O ran y dalgylchoedd unigol yr oedd y canrannau canlynol yn credu bod yr ysgolion yn llwyddo i gyflawni'r nod o sicrhau bod gan ddisgyblion sgiliau /allu cystal yn y Gymraeg a'r Saesneg:

	<b>Dalgylch Ardudwy</b>	<b>Dalgylch Bangor</b>	<b>Dalgylch Botwnnog</b>	<b>Tu allan i ddalgylchoedd yr ymchwiliad craffu</b>
Credu bod llwyddiant	41%	34%	56%	43%
Dim yn credu bod llwyddiant	38%	48%	24%	57%
Ddim yn gwybod / heb ateb	21%	18%	20%	0%

### Dadansoddiad o'r sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd

#### Dalgylch Ardudwy

Nifer fechan o sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd gan rieni dalgylch Ardudwy.

- Derbyniwyd 6 sylw ynglŷn â gweld manteision dysgu Cymraeg a 6 sylw y dylid addysgu trwy gyfrwng y Saesneg a dysgu Cymraeg fel pwnc. Pryder y rhieni yw bod pynciau fel mathemateg a rhai pynciau eraill yn dioddef yn sgil addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwnaed 3 sylw y dylid rhoi dewis i'r plant ai Cymraeg neu Saesneg y dymument dderbyn eu haddysg.

#### Dalgylch Bangor

- Yr oedd 32 sylw yn cytuno / gweld manteision dysgu dwyieithog.
- Gwnaed 17 sylw bod angen hyrwyddo'r Gymraeg, manteision dwyieithrwydd a datblygu hyder yn nefnydd o'r Gymraeg a gwneud gweithgareddau Cymraeg hwyliog/hyrwyddo'r Urdd.
- Gwnaed 16 sylw bod angen cryfhau Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a sicrhau bod pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn y Polisi.

- Gwnaed 11 sylw bod y rhieni yn hapus neu'n hapus iawn gyda datblygiad eu plant.
- Derbyniwyd 14 sylw ynglŷn â'r angen i roi dewis i'r plant ai Cymraeg neu Saesneg y dymument dderbyn eu haddysg.
- Yr oedd 9 sylw bod gormod o ffocws ar y Gymraeg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg.
- Derbyniwyd 5 sylw negyddol am y Polisi Iaith.
- Gwnaed 10 sylw bod angen sicrhau cyfartaledd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Derbyniwyd 7 sylw bod angen cychwyn gwersi Saesneg yn gynt yn y Cynradd.
- Gwnaed 7 sylw y dylid addysgu Mathemateg, Gwyddoniaeth a rhai pynciau eraill trwy gyfrwng y Saesneg.
- Derbyniwyd 5 sylw y dylid cynnal gwersi trwy gyfrwng y Saesneg a dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig.
- Gwnaed 5 sylw bod y Gymraeg yn rhan hanfodol o ddiwylliant Cymru.
- Derbyniwyd 5 sylw y dylai bod holl staff a gwirfoddolwyr yr ysgolion fod yn siarad Cymraeg efo'r plant a gwella safon Cymraeg yr athrawon.
- Derbyniwyd 6 sylw ynglŷn â bod rhieni angen help a gwybodaeth yn ddwyieithog i'w galluogi i helpu eu plant.

#### Dalgylch Botwnnog

- Derbyniwyd 32 sylw yn cefnogi addysg ddwyieithog
- Yr oedd 8 sylw yn dweud bod gormod o ffocws ar y Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei wthio gyda'r Saesneg yn cael ei israddio a bod angen hybu'r Saesneg hefyd.
- Gwnaed 5 sylw bod angen gwella Cymraeg y plant ac angen mwy o Gymraeg ar y buarth.
- Gwnaed 3 sylw bod angen i bob ysgol weithredu'r Polisi Iaith yn llawn a dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Polisi

Sylwadau tu allan i ddalgylchoedd briff yr ymchwiliad craffu:

- Derbyniwyd 8 sylw bod angen cryfhau a chefnogi'r Polisi Iaith a sicrhau bod pob ysgol yn ei ddilyn.
- Gwnaed 3 sylw nad ydi'r Polisi Iaith gyfredol yn ddwyieithog a bod angen hybu'r Saesneg hefyd.

#### 7.9 Barn plant a phobl ifanc

Comisiynwyd IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith i gynnal grwpiau ffocws gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiadau a barn am addysg Gymraeg a'u defnydd o'r iaith o fewn yr ysgol. Cwblhawyd y gwaith yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2015.

Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o grwpiau ffocws (gweler **Atodiad 26**) gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2), CA2 (Blwyddyn 6), CA3 (Blwyddyn 9<sup>1</sup>) a CA4 (Blwyddyn 10<sup>2</sup>) mewn chwe ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd.

Dewiswyd yr ysgolion gan swyddogion y Cyngor mewn ymgynghoriad efo aelodau'r ymchwiliad craffu i gynnig amrediad yn y sampl o ran maint yr ysgol, ardal a phroffil ieithyddol y disgyblion a'r gymuned leol, fel a ganlyn:

#### Dalgylch Ardudwy

- Ysgol Cefn Coch
- Ysgol Tan y Castell
- Ysgol Ardudwy

#### Dalgylch Bangor

- Ysgol Glancegin
- Ysgol Cae Top
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Friars

#### Dalgylch Botwnnog

- Ysgol Nefyn
- Ysgol Sarn Bach
- Ysgol Botwnnog

Dewiswyd y disgyblion ar hap ar y cyd rhwng yr ysgolion a thîm IAITH. Cyfrannodd 63 disgybl i'r grwpiau ffocws cynradd. Roedd 38 ohonynt yn ferched a 25 yn fechgyn. Daeth 20 o'r disgyblion cynradd o gartrefi Saesneg<sup>3</sup>, 16 o gartrefi Cymraeg; a 27 o gartrefi dwyieithog<sup>4</sup>. O'r 50 disgybl uwchradd, roedd 25 geneth a 25 bachgen. Daeth 26 ohonynt o gartrefi Cymraeg, 15 o gartrefi Saesneg; a naw o gartrefi dwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Cynhaliwyd pob grŵp ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda chaniatâd y cyfranogwyr, gwnaed recordiad sain o'r drafodaeth fel sail i'r cofnod ysgrifenedig.

Paratowyd cyfres o gwestiynau a gweithgareddau i ysgogi trafodaeth a chofnodi arferion iaith, canfyddiadau a barn y disgyblion am:

- batrymau defnydd iaith yn yr ysgol;
- canfyddiadau am eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- canfyddiadau am fanteision dwyieithrwydd / amlieithrwydd;
- ymwybyddiaeth a chyfranogiad i'r Siarter Iaith a dylanwad hynny arnynt.

Tra bo cwestiynau craidd y grwpiau ffocws yn gyson i bob grŵp, addaswyd y cwestiynau a'r tasgau i gyd-fynd ag oedran y disgyblion. Mae crynodeb o'r data a gasglwyd, fesul ysgol a chyfnod allweddol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.



Dylid cofio bod y dystiolaeth a gasglwyd gan y disgyblion yn dystiolaeth hunan-adroddedig. Er eu bod wedi cael eu dewis ar hap, nid yw'r disgyblion o reidrwydd yn gynrychioladol o boblogaeth yr ysgol. Yn ogystal, dylid ystyried nad yw'r disgyblion wedi rhoi darlun llawn a manwl o bob agwedd ar ddefnydd iaith yn yr ysgol o fewn cyfyngderau trafodaeth grŵp ffocws. Lle bo dyfyniadau o eiriau'r disgyblion, nid ydym wedi cywiro unrhyw wallau ieithyddol.

Mae'r data o'r 18 grŵp ffocws a gynhaliwyd mewn chwech ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd gyda disgyblion CA1, CA2, CA3 a CA4 yn cynnig cipolwg o safbwynt y disgyblion ar rai o'r materion sy'n ymwneud â gweithrediad polisi iaith y Cyngor.

Tra bod y penaethiaid ac athrawon yn medru, ac yn arddel, y Gymraeg, ceir nifer o ysgolion ble mae amgylchedd ieithyddol Gymraeg yr ysgol yn cael ei ddylanwadu gan ddiffyg gallu Cymraeg rhai cymorthyddion a staff eraill. Gellid cryfhau amgylchedd Cymraeg rhai ysgolion trwy gynnig cefnogaeth i staff presennol i ddysgu'r Gymraeg ac i sefydlu gofynion ieithyddol swyddi wrth benodi staff newydd.

Yn y grwpiau cynradd, casglwyd tystiolaeth am brif batrwm defnydd iaith y dosbarth cyfan. Yn y grwpiau uwchradd, gofynnwyd i bob disgybl gofnodi ei brofiad unigol o (d)defnydd iaith yn ei (g)wersi mathemateg, gwyddoniaeth a gwersi eraill. Gweler y tablau Defnydd Iaith Gwersi Uwchradd yn **Atodiad 27** sydd yn cynnig darlun manwl fesul ysgol, o ddwyieithrwydd ar waith wrth ddysgu ac addysgu.

Mae'r arfer o siarad Saesneg gyda ffrindiau a phob cyfle tu hwnt i'r dosbarth yn gryf iawn gan rhai disgyblion ac mewn rhai ysgolion yn fwy na'i gilydd. Mae'r duedd i blant o deuluoedd di-Gymraeg, yn enwedig, i gyfyngu eu defnydd o'r Gymraeg i ystod o gyd-destunau addysgu cyfyngedig yn ffenomenon gyffredin. Dengys ymchwil fod tuedd i fechgyn, yn enwedig, ymwrthod ag ymddygiad (gan gynnwys ymddygiad ieithyddol) sy'n cael ei orfodi arnynt gan bobl mewn awdurdod a bod hyn yn dwysáu yn ystod cyfnod yr arddegau.

Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn gefnogol o'r Gymraeg. Awgryma data'r grwpiau ffocws bod gwerthoedd negyddol tuag at y Gymraeg gan rai disgyblion mewn rhai ysgolion. Amlygwyd yn ogystal nad yw disgyblion o reidrwydd yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am y Siarter Iaith nac yn cael cynnig eu syniadau eu hunain dros arferion ieithyddol yr ysgol. Gwelwyd hefyd bod beirniadu a chosbi disgyblion am siarad Saesneg yn wrthgynhyrchiol. Buasai cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a chynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am arferion iaith yn yr ysgol yn fodd o ymateb i unrhyw werthoedd negyddol ac i feithrin perchnogaeth y disgyblion ar bolisi iaith yr ysgol.

Cymharol fychan yw'r nifer o ddisgyblion sy'n ystyried bod ganddynt sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob agwedd o'u bywydau. Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o ddiffyg llwyddiant y Polisi Iaith. Caiff sgiliau ieithyddol disgyblion eu hogi trwy arferion cymdeithasol beunyddiol tu hwnt i'r ysgol yn

ogystal â'u profiadau addysgol. Di-sail yw'r rhagdybiaeth y dylai pob person dwyieithog feddu ar yr un 'lefel' yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob cyd-destun megis y byddai unigolyn uniaith Saesneg.

Cymysg yw'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg wrth addysgu a dysgu, gyda rhai ysgolion a rhai athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ddwy iaith na'i gilydd. Rhaid wrth ymchwil mwy manwl i gyfrannu i'r drafodaeth am ddiffinio yr hyn a olygir wrth addysg ddwyieithog a gwirio i ba raddau y mae athrawon yn trawsieithu'n fwriadol ac effeithiol i ddatblygu medrau dwyieithog pob disgybl.

Gwnaed nifer o argymhellion gan Y Ganolfan Cynllunio Iaith ac maent wedi eu hymgorffori yn argymhellion yr adroddiad hwn.

## 8. Argymhellion

Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r dogfennau cefndir, y data a'r holl dystiolaeth a gasglwyd gwnaed yr argymhellion canlynol:

Argymhellion mesuradwy	Maes	Cyfrifoldeb	Y Mesur posib / Allbwn
1. Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.	Polisi	Adran Addysg	A) Polisi Iaith ddiwygiedig yn ei le.
2. Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn	Polisi	Adran Addysg (Penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd)	A) Adran Addysg wedi sicrhau diffiniad ieithyddol safonol ar gyfer pob ysgol uwchradd a'i wneud yn eglur i'r holl randdeiliaid.  B) Llywodraethwyr pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant i

<p>atebol am ei weithrediad.</p>			<p>sicrhau eu dealltwriaeth o ddiffiniad ieithyddol yr ysgolion a gofynion y Polisi laith.</p> <p>C) Adran Addysg yn gweithredu trefniadau monitro cadarn er sicrhau fod pob ysgol uwchradd yn cydymffurfio gyda'r diffiniad a Pholisi laith (Addysg) y sir.</p>
<p><b>3.</b> Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi laith (Addysg).</p>
<p><b>4.</b> Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi laith.</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>		<p>A) Y Llywodraethwyr a'r Cyngor yn monitro canlyniadau arholiadau'n fanwl ac yn rheolaidd.</p>
<p><b>5.</b> Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi laith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a</p>	<p>Polisi (Gweithredu)</p>	<p>Ysgol Friars / Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor yn cefnogi Ysgol Friars yn rheolaidd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.</p>

bywyd yr ysgol.			<p>B) Y Cyngor wedi sicrhau dealltwriaeth y Llywodraethwyr ac wedi sefydlu trefn fonitro gadarn.</p> <p>C) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi rhaglennu eu gwaith i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd.</p>
6. Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith.	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Pob Llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith.
7. Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.	Hyfforddiant	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith.
8. Er cysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.	Monitro ac atebolrwydd	Adran Addysg	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn monitro reolaidd.</p> <p>B) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi craffu data perthnasol yn rheolaidd i sicrhau gweithrediad y Polisi Iaith (Addysg).</p>
9. Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y	Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Trefn fonitro yn ei lle ar gyfer pob athro pwnc i baratoi

<p>Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni.</p>			<p>adroddiadau cynnydd (cynradd ac uwchradd) ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl.</p> <p>B) Wedi trafod yr adroddiadau cynnydd gyda'r disgybl a'r rhieni.</p>
<p><b>10.</b> Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.</p> <p>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: "olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg".</p>	<p>Monitro ac atebolrwydd</p>	<p>Adran Addysg / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sicrhau bod trefn gadarn yn ei lle ar gyfer monitro dilyniant ieithyddol a hefyd tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm gan adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.</p>
<p><b>11.</b> Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio'n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:</p> <p>i.) faint o'r Gymraeg a'r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu ii.) iaith ysgrifennu</p>	<p>Addysgu dwyieithog</p>	<p>Adran Addysg</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant addas ar gyfer Athrawon</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- addysgu dwyieithog</li> <li>- a meithrin sgiliau trawsieithu</li> </ul>

<p>disgyblion mewn gwersi dwyieithog iii.) beth yw'r disgwyliadau o safbwynt defnyddio'r Gymraeg/Saesneg mewn sgysiau a thrafodaethau dosbarth.</p>			
<p><b>12.</b> Sicrhau bod:  i) y Siarter Iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd  ii) arfer dda ar weithredu'r Siarter Iaith a chefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion  iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol.</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor yn monitro'n rheolaidd gweithrediad y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir, ac yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion.   B) Y Cyngor a'r ysgolion yn creu cyfleoedd.   C) Y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i'r ysgolion i alluogi disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r gwefannau ac adnoddau ar-lein Cymraeg.</p>
<p><b>13.</b> Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr</p>	<p>Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>	<p>Cyngor Gwynedd (Adran Addysg / Hamdden / Gwasanaeth Ieuenctid / Hunaniaith)</p>	<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion adroddiad Trywydd.</p>

adroddiad.			
<p><b>14.</b>Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:</p> <p>i.) y Polisi Iaith ii.) y Siarter Iaith iii.) arferion iaith yr ysgol</p> <p>gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>	Cynnwys disgyblion	Ysgolion Cynradd /Uwchradd	<p>A) Y disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau am y Polisi Iaith, y Siarter Iaith ac arferion iaith yr ysgol.</p> <p>B) Wedi sefydlu trefn i sicrhau perchnogaeth y disgyblion ar y Polisi.</p> <p>C) Wedi sefydlu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg.</p>
<p><b>15.</b>Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Iobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr.</p>	Grant Myfyrwyr		<p>A) Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd.</p>
<p><b>16.</b>Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion.</p>	Manteision dwyieithrwydd		<p>A) Y Cyngor wedi cynnal adolygiad i adnabod cyfleoedd i farchnata manteision dwyieithrwydd.</p> <p>B) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i fonitro bod pob ysgol yn y sir yn marchnata'r manteision hynny ar eu gwefan, ac ymysg rhieni a disgyblion.</p>
<p><b>17.</b>Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod</p>	Manteision dwyieithrwydd		<p>A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn i ddathlu</p>

canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol.			llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir yn y dulliau diweddaraf poblogaidd. B) Yr Ysgolion wedi gosod y llwyddiannau ar wefan yr ysgol.
<b>18.</b> Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi digymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth laith, sgysiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu.	Manteision dwyieithrwydd		A) Y Cyngor wedi sefydlu rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth laith. B) Yr Ysgolion wedi sefydlu trefn i gynnal sgysiau gyda darpar ddisgyblion / rhieni. C) Y Cyngor wedi rhannu arferion da gyda'r holl ysgolion ar draws y sir.
<b>19.</b> Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor: gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd.	Trefniadau Penodi Staff	Adran Addysg	A) Y Cyngor wedi sefydlu trefn gadarn ar gyfer penodi staff newydd.
<b>20.</b> Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau laith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal.	Canolfannau laith / Monitro ac atebolrwydd	Ysgolion Cynradd / Uwchradd	A) Y Cyngor yn monitro defnydd o'r Canolfannau laith a gweithrediad y pecynnau ôl-ofal yn rheolaidd.
<b>21.</b> Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan laith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi laith.	Canolfannau laith	Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru	A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu Canolfan laith benodol ar gyfer dalgylch Bangor.



<p><b>22.</b> Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion.</p>	<p>Canolfannau Iaith</p>	<p>Canolfannau Iaith / Ysgolion Cynradd / Uwchradd</p>	<p>A) Y Cyngor a'r Canolfannau Iaith yn rhannu arfer dda gyda'r holl ysgolion yn rheolaidd.</p>
<p><b>23.</b> Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgylchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith.</p>	<p>Addysg drochi</p>	<p>Cyngor Gwynedd / Llywodraeth Cymru</p>	<p>A) Y Cyngor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth lawn i sefydlu darpariaeth addysg drochi yn Ysgol Ardudwy (ac eraill).</p>
<p><b>24.</b> Dylai'r Cyngor drafod gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC).</p>	<p>Prifysgol Bangor</p>		<p>A) Y Cyngor wedi trafod ac wedi dod i gytundeb gyda Phrifysgol Bangor.</p>

## 9. Adrodd yn ôl

- 9.1 Mae aelodau'r ymchwiliad craffu yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond maent yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad ar ei ymateb i'r argymhellion yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.
- 9.2 Cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor Iaith yn dilyn y Pwyllgor Craffu

## **Cydnabyddiaeth**

Dymunwn ddiolch i'r bobl ganlynol am roi tystiolaeth, gwybodaeth werthfawr a'u cydweithrediad parod:

Dewi Jones, Pennaeth Addysg

Uned Iaith, Cyngor Gwynedd

Gwynedd Ni

Penaethiaid Dalgylch Bangor

Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Ardudwy, Botwnnog, Friars a Tryfan.

Penaethiaid Ysgol Gynradd Nefyn, Tan y Castell, Dyffryn Ardudwy a Thalsarnau, Cae Top, a Hirael.

Penaethiaid Cynradd Dalgylch Botwnnog

Penaethiaid Canolfannau Iaith Sector Cynradd ac Uwchradd

Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Cynradd

Cydlynwyr / Cyd-gysylltwyr Iaith Ysgolion Uwchradd

Darlithwyr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor